

tafod elái

www.tafelai.net

Tachwedd 2002

Pris 40c

Rhif 172

Na i'r Consensws

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn trefnu rali am 2 o'r gloch ar Dachwedd 30ain tu allan i'r Cynulliad Cenedlaethol i ddatgan yn glir i'r gwleidyddion fod rhaid rhoi dyfodol y Gymraeg a dyfodol ein cymunedau trefol a gwledig ar ben yr agenda o hyn allan.


Ers ei sefydlu mae consensws cyfforddus wedi datblygu yn y Cynulliad Cenedlaethol fod yr iaith Gymraeg yn saff yn nwylo Llywodraeth Cymru a'i ffrindiau ym Mae Caerdydd. Dyna swm a sylwedd adroddiad yr Arolwg Iaith y bu'r Pwyllgor Diwylliant yn ei gynnal am dros flwyddyn. Ond mae Cymdeithas yr Iaith sy'n brwydro dros ddyfodol y Gymraeg o ddydd i ddydd yn gwybod fod yr iaith Gymraeg a'r cymunedau hynny lle siaredir Cymraeg yn wynebu dyfodol argyfyngus.

Mae Arolwg Iaith y Cynulliad wedi methu â chydabod yr angen am Ddeddf Iaith newydd a fyddai yn sicrhau fod gennym yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn perthynas â holl wasnaethau preifat yr oes fodern ac wedi methu cydnabod y galw am Ddeddf Eiddo a fyddai'n diogelu cymunedau drwy estyn elfen o reolaeth gymunedol dros y farchnad dai breifat.

Mynnwch ddyfodol i'r iaith Gymraeg drwy ymuno yn y rali ar Dachwedd 30ain am 2 o'r gloch.

Y GYMRAEG AR WEFAN BT

Mae BT wedi lansio opsiwn Cymraeg ar ei wefan poblogaidd www.bt.com. Mae'n cynnwys cyfeiriadur rhifau ffôn Cymraeg a safle Ffrindiau a Theulu.



Yr Athro Hywel Teifi Edwards gyda Allan James

Cafwyd noson arbennig yn yr Hen Dŷ, Llangynwyd, i lansio llyfr newydd Allan James, Llantrisant. Mae Allan yn enedigol o Faesteg a daeth torf i lenwi lolfa'r dafarn i wrando ar Allan yn cyflwyno ei lyfr a sylwadau crafog Hywel Teifi ar bawb a phopeth.

Aredig gydag ychen, canlyn y Fari Lwyd, hela'r dryw, bragu cwrw bach: dyma rai o arferion gwerin hen sir Forgannwg sy'n cael sylw yn y gyfrol 'Diwylliant Gwerin Morgannwg' gan Allan James.

Cyfes o ddarluniau a gyflwynir yma, sy'n croniclo agweddau ar hanes ardal arbennig ar adeg arbennig. Cawn ddarlun o gymdeithas amaethyddol sydd wedi hen ddiplannu bellach, ond y bu ei gweithgareddau, ei hiaith a'i chymeriadau o ddiddordeb i gofnodwyr a chroniclwr cydwybodol a oedd yn awyddus i goffau'r hyn a fu cyn iddo ddadfeilio. Trwy hyn llwyddwyd i ddiogelu etifeddiaeth a fyddai wedi mynd yn angof llwyr oni bai am eu gwledigaeth a'u hymroddiad.

Er mai ar Fro Morgannwg y mae prif sylw'r gyfrol hon, y gobaith yw y bydd disgrifio natur diwylliant gwerin yr ardal honno yn egluro natur y prosesau a fu'n llywio cymeriad cymunedau tebyg eraill ledled Cymru.

Daw Allan James o Faesteg, ond ymgartrefodd bellach yn Llantrisant. Mae'n Brif Ddarlithydd y Gymraeg ym Mhrifysgol Morgannwg, ger Pontypridd, lle y mae'n cyfuno ei ddiddordeb mewn iaith, addysg Gymraeg, a diwylliant ei fro.

Cyhoeddwyd: Gwasg Gomer, Llandysul, Ceredigion £12.95

17eg Gwyl Ddrama Tafod Elái 2002

Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdref

20—22 Tachwedd 2002

am 7 bob nos.

Ymunwch yn yr hwyl

Dawns, Drama Un Act, Noson Lawen, Cân, Pantomeim, Rifiw, Comedi.

Manylion pellach: 01443 402867

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1^{af} Rhagfyr 2002
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
22 Tachwedd 2002

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG

Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
<http://www.tafelai.net>

e-bost

pentyrch@tafelai.net



Argraffwyr:

Gwasg

Morgannwg

Uned 27, Ystad

Ddiwydiannol

Mynachlog Nedd

Castell Nedd SA10 7DR

Ffôn: 01792 815152

www.cwlwm.com

Gwybodaeth am holl
weithgareddau Cymraeg yr ardal.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH

BWRDD YR IAITH GYMRAEG

I'R CYHOEDDIAD HWN

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith
Gymraeg, galwch y **LLINELL GYSWILT...**

0845 6076070

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk



Datblygu Dawn

Mae Alan Rosser o Waelod y
Garth yn arddangos ei waith
arllunio yn y Gallery,
Broadway, Caerdydd o'r 7ed i
30ain o Dachwedd.

Mae Alan newydd gwblhau
cwrw gradd mewn Celfyddyd
Gain yn UWIC ac mae'r
arddangosfa yn gyfle cyntaf
iddo i weld ymateb y cyhoedd
i'w waith.

"Ar fy nghwrs gradd
darganfyddais fod ceisio arllunio a
pheintio y corff dynol yn sialens
enfawr - mae'n rhaid cael y darlun
yn dechnegol gywir ond hefyd mae'n



rhaid rhoi ysbryd i'r darlun a rhoi
bywyd iddo," dywedodd Alan.

Cynhelir yr arddangosfa yn Y
Gallery, 11 Broadway, ger Heol
Casnewydd, Caerdydd, 7 - 30
Tachwedd 10am - 6pm.

Cymdeithas
Rhieni ac Athrawon
Ysgol Gyfun Rhydfelen
yn dathlu

40 pen-blwydd yr ysgol

Noson Roc a Rôl
gyda Caryl Parry
Jones a'r Band

7.30 Nos Wener, 29
Tachwedd 2002

Yn Neuadd yr Ysgol
Tocynnau: £6

Lluniaeth Ysgafn a Bar

Manylion: 01443 209226

Ysgol Rhydfelen

Penblwydd 40 yr ysgol!

Cyngerdd gan
Gyn-ddisgyblion
yr Ysgol

7.30pm Nos Sadwrn,
Rhagfyr 14

Yn Oriel Prifysgol
Morgannwg

Gwr Gwadd:
Gwilym Humphreys

Tocynnau: £10

Ffoniwch yr ysgol:
01443 486818



CYLCH
CADWGAN

Lyn Ebenezer
yn siarad am brofiadau
Rhith Awdur.

8pm Nos Wener
Rhagfyr 13 2002

Ysgol Creigiau
Gyda chymorth yr academi

AR WERTH

Telyn bedal Pilgrim Progress 41
tant. £4500 yn cynnwys gorchudd a
stôl. Ffôn: 01443 222417

Clwb y Dwrllyn
Cerdd a Chân

Tafarn y Mochyn Du
8pm Nos Fercher
6^{ed} Tachwedd.

Gwybodaeth pellach:
029 20890040

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Brownies 1af Creigiau yn rhedeg am eu bywydau?

'N ôl yn yr haf bu Brownies 1af Creigiau yn cymryd rhan yn y 'Ras Dros Fwyd' ym Mharc Bute, Caerdydd. Roedd hi'n noson arbennig o dda gyda miloedd o fenywod a merched ifainc yn rhedeg neu gerdded i godi arian at elusennau cancr. Rhai er cof am anwyliaid a gollodd eu brwydrau i gancr ac eraill er mwyn dathlu llwyddiant unigolion sy wedi gorchfygu yr aflwydd. Brownies Creigiau oedd yr unig griw o Frownies i gymryd rhan ac roedd y merched yn wych! Gwyddai pawb bod 'pac' Creigiau yno, diolch i'r holl ganu a gweiddi a wnaed wrth fynd o gwmpas y parc. Cafwyd noson i'w chofio ond gwell fyth fe godwyd £641 trwy ymdrechion y merched, tuag at elusennau cancr.

Llongyfarchiadau i bob un ohonoch chi ferched! Da iawn, wir!

Cyn bo hir bydd tair o aelodau newydd Brownies Creigiau yn derbyn eu haddewid Brownie trwy gyfrwng y Gymraeg. Tipyn o weledigaeth ar ran yr arweinyddion a thystiolaeth fod y Gymraeg ar waith yn y gymuned hon. Falle y cawn lun Lowri Davies, Eleanor Rees a Billie Horsey yn derbyn eu haddewid yn y rhifyn nesa.

Gwellhad llwyr a buan

Anfonwn ein cofion at Mrs Hilary Lewis, Parc y Bryn a dderbyniodd lawdriniaeth yn ystod yr haf. Gobeithio'n wir bod y cymalau newydd yn gwneud eu gwaith ac y bydd Hilary yn ôl yn ei chylchoedd cymdeithasol cyn hir. Gwelir eich colli, Hilary.

Llwyddiant ar y piano

Llongyfarchiadau i Emyr Honeybun, Parc y Coed ar basio ei radd 2 gyda merit, ar y piano yn ystod yr haf. Does dim rhaid dweud wrth Emyr am ddal ati – mae e'n ymarfer yn ddiwyd bob nos, siwr o fod - dyna sut yr enillir 'merit' onide? Da iawn ti, Emyr.



Llwyddiant Lefel 'A' ...

.... os y gwelwch eisiau Kate tu ôl i gownter 'One Stop' bellach, mae hyn oherwydd ei llwyddiant yn yr arholiadau safon 'A'. Bellach mae Kate Staple, o Barc y Bryn yn astudio'r Gyfraith ym Mhrifysgol Abertawe. Dymuniadau da i ti Kate, a joia dy fywyd colegol.

Dathlu dwbwl!

Ymddeoliad hir a hapus i Peter Condrion, Haydn House gynt, Stratford ers tro byd bellach. Mae Peter yn ymddeol ar ôl rhoi gwasanaeth ffyddlon iawn i fyd y cyfryngau - bu'n gweithio am flynyddoedd fel peiriannydd yng ngorsaf deledu Wenfo cyn cael ei ddrychafu i faes cyffelyb yn Stratford. Mae Peter, Gwen, Huw a Rhianwen yn dal mewn cysylltiad agos gyda'u llu cyfeillion yn yr ardal hon a dymunwn yn dda iddynt ar achlysur ymddeoliad a phen blwydd Peter!

Croeso i'r Creigiau!

Do wir, wedi ffeindio bod poblogaeth Gymraeg Creigiau'n dal i gynyddu!

Groeso cynnes iawn i John a Margaret Kelly, Rhys sy'n saith, Aled sy bron yn bedair a Seth fydd yn ddwy cyn bo hir iawn! Mae'r teulu bach wedi ymgartrefu yn 7, Llys Dyfrig. Golyga hyn bod y bechgyn yn medru cerdded i'w hysgol bellach, waeth pan oeddent yn byw yn y Groesfaen roedd yn rhaid cael 'pass' i'r ysgol! Daw Margaret o ardal Abertawe yn

MENTRO ÂR FENTER I'R FRO

Derbyniodd y Gymraeg hwb sylweddol pan sefydlwyd menter iaith newydd ar gyfer Sir Bro Morgannwg mewn cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, Y Barri.

Amcan Menter Iaith Bro Morgannwg yw hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl sy'n byw neu'n gweithredu o fewn ffiniau Sir Bro Morgannwg. Yn ogystal â sefydlu ei chynlluniau ei hun, bydd y fenter yn gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau a chymdeithasau eraill Cymraeg, gan gynnwys Merched y Wawr, Mudiad Ysgolion Meithrin, CYD ac Urdd Gobaith Cymru. Gyda mwy na 11,000 o Gymry Cymraeg o fewn y Fro a llawer eto yn dysgu'r iaith, bydd gan y fenter rôl bwysig i chwarae drwy greu cyfleoedd i bobl o bob oedran i ddefnyddio'u Cymraeg yn eu bywyd pob dydd.

Gofynnir i unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â'r fenter iaith i gysylltu â Janet Davies ar 029 2066 8081 neu Tim Pearce ar 01446 419294.

enedigol a John o Swydd Stafford - ond Cymraeg yw iaith yr aelwyd - dysgodd John Gymraeg ychydig flynyddoedd yn ôl ac ennill tystysgrif TGAU yn dyst i'w llwyddiant. Gweithio i gwmni BT yng Nghaerdydd y mae John ym myd y we! Croeso i'r Creigiau!

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Siân Evans

ARHOLIAD PIANO

Llongyfarchiadau i Carys Tudor, Meisgyn fu'n llwyddiannus yn ei harholiad piano Gradd I nôl yn yr haf – dwi'n flin bod y llongyfarchion yn hwyr Carys, ond da iawn ti beth bynnag!

PRIODAS

Hoffwn ddymuno'n dda i Alison Theaker a Roy Meaden a briodwyd yn Eglwys Meisgyn ar 19 Hydref. Bu plant Alison – Bethan a Mitchell – yn ddisgyblion yn YGG Llantrisant ac mae'r ddau yn mynychu Ysgol Gyfun Llanhari ar hyn o bryd. Roedd Bethan yn forwyn i'w mam a Mitchell gerddodd ei fam i fewn i'r Eglwys ar y diwrnod mawr. Rwyn deall i Mitchell wneud araith yn ystod y wledd a gwneud jobyn da iawn ohoni hefyd! Llongyfarchiadau i chi gyd fel teulu a gobeithio y cawsoch chi, Alison a Roy, fis mêl hyfryd ym Mhortiwal.

GŴYL SHAKESPEARE

Bu rhai o bobl ifanc yr ardal yn cymryd rhan yng Ngŵyl Ddrama Shakespeare i ysgolion yn ddiweddar. Mae'r Wyl ar ei thrydedd flwyddyn – dechreuwyd hi dwy flynedd yn ôl yn Sir Benfro a'r llynedd symudodd i Lundain lle perfformiodd dros 60 ysgol ynddi. Eleni, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chaerdydd 2008, daeth hi nôl i Gymru. Cymrodd 2,500 o actorion ifanc ran mewn 100 cynhyrchiad mewn 11 theatr ledled Cymru rhwng y 1af a'r 18fed o Hydref a bu disgyblion Blwyddyn 10 yr Adran Ddrama Ysgol Llanhari yn Theatr y Sherman yn perfformio'r Dymestl.

Defnyddiodd yr ysgolion y sgriptiau a ddefnyddiwyd gan S4C a BBC Cymru pan crynhowyd deuddeg o ffefrynnau Shakespeare i hanner awr yr un ar gyfer "Shakespeare -Y Chwedlau Animeiddedig". Roedd rhyddid i berfformio yn y Saesneg neu'r Gymraeg – a mae'n debyg i rai

ysgolion roi perfformiadau dwyieithog!

Nid cystadleuaeth mohoni ond ffordd o gyflwyno Shakespeare i ddisgyblion a rhoi'r profiad iddynt o berfformio drama mewn theatr mewn cydweithrediad â staff ac actorion proffesiynol – rhai wythnosau cyn y perfformiad cafwyd ymweliad â gweithdy gan actorion o Dramarama sy'n gysylltiedig â'r 'Royal Shakespeare Company'.

Cafwyd perfformiad proffesiynol tu hwnt gan griw Ysgol Llanhari – cynhyrchwyd eu perfformiad a hyfforddwyd y disgyblion gan Mrs Lowri Cynan a Miss Manon Edwards. Y disgyblion fu'n perfformio yn y Sherman ar y 9fed o Hydref o'r ardal hon oedd Catrin Evans, Emma Wilkins, Ceri South ac Alex Vlahos – diolch am eich holl waith caled a gobeithio y gwnaethoch fwynhau perfformio gymaint ag y gwnaeth y gynulleidfa fwynhau eich gwyllo.

Y DIWEDDARAF AR Y TESCO NEWYDD

Mae'n debyg na fydd y Tesco newydd sy'n cael ei adeiladu ar safle'r hen Homeworld yn Nhonysguboriau yn barod nes haf 2003 neu hyd yn oed yn hwyrach. Yn wreiddiol, mi oedd i fod i agor erbyn y Nadolig eleni, ond oherwydd problemau, yn gyntaf gyda phibellau nwy a wedyn gyda lefelau sylfeini, bu oedi cyn dechrau ar y gwaith.

Mae hyn yn golygu y bydd y problemau parcio yn y dref yn parhau gan bod cyfyngu ar y nifer o oriau y medrwyd barcio ym maes parcio'r Tesco presennol a'r ffaith nad yw'n bosib parcio ger yr orsaf fysiau nawr am fwy na hanner awr heb gael eich 'clampio'. Mae hyn oherwydd bod cwmni preifat wedi cymryd y safle drosodd ac yn llym iawn gyda'u rheolau.

CROESO I FFION ELEN - Llongyfarchiadau i Lowri a Jeremy Jones, 21 Clos y Brenin, Pontyclun ar enedigaeth Ffion Elen. Hi yw eu merch fach gyntaf anedig ac fe'i ganed hi yn ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant. Mae Lowri yn gyn-ddisgybl o Ysgol Llanhari ac yn ferch hynaf Lyn ac Angela Devonald o Bentyrch.

ADRODDIAD AM DAITH CÔR IAU RICHARD WILLIAMS I'R ALMAEN A'R ISELDIROEDD

Soniais rai misoedd yn ôl bod Catrin Greaves, Heol y Pistyll, Llantrisant wedi ymuno â Chôr Iau Richard Williams, Tonyrefail. Mae Catrin, sy'n unarddeg blwydd oed, yn hoff iawn o ganu yn ogystal â darllen ac ysgrifennu. Cytunodd hi, yn garedig iawn, i roi adroddiad i ni am ei thaith i'r cyfandir gyda'r côr yn ystod gwyliau'r haf – dyma'r hanes:

Rwyf wedi bod yn aelod o Gôr Plant Richard Williams am flwyddyn ac yn ystod y gwyliau haf cefais i gyfle ardderchog i ganu mewn tri chyngerdd yn yr Almaen a'r Iseldiroedd gyda gweddill y côr (sydd yn mynd ar drip tebyg bob dwy flynedd). Dyma'r tro cyntaf i mi fod ar drip canu ar roeddwn i yn edrych ymlaen yn fawr iawn.

Roedd y daith yno yn hir ac yn ddiflas. Cwrddon ni yng Nghanolfan Cerddoriaeth Tonyrefail (lle bu ymarferion côr bob dydd Mawrth a Iau) yn gynnar, gynnar y bore a chychwyn ar ein taith i Valkenburg. Cyrhaeddwn ni'n hwyr y nos yn flinedig iawn. Roedden ni'n aros yng ngwesty Dupuis ac roedd gan y côr y gwesty cyfan i'w hunain.

Yn anffodus, nid oedd Mr Williams ei hun yn gallu dod ar y trip yma, ond roedd yn llwyddiant ta beth. Gyda'r cyngerdd cyntaf rownd y gornel roedd pawb yn gyffrous, yn enwedig y plant llai (mae'r côr yn derbyn plant o 7 oed i 18) a merch Mr Williams, Margaret oedd yn cymeryd ei le am y tro cyntaf! Roedd y gyngerdd yma yn y 'bandstand' leol ble roedd pawb a oedd yn pasio yn gallu gwrandao arnon ni'n canu. Mae'r caneuon a ganon ni yn cynnwys "Dwylo dros y Môr", "Suo Gân", "Ar Lan y Môr",

Drosodd >

CANU GWERIN YM MORGANNWG

Gair o ddiolch i Don Llywelyn am gyfraniad mor ddiddorol a phwysig yn rhifyn Hydref Tafod Elái dan y teitl 'Pentyrch a'i Gymeriadau'. Y gobaith yw y bydd hyn yn sbardun i eraill gofio a choffáu. Mae'n briodol nodi yn y cyswllt hwn mai mewn cyfres o gylchgronau a phapurau lleol y diogelwyd cymaint o ddeunydd hynafiaethol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan

Parhad -

Taith Côr Richard Williams

"Lisa Lan", "Oes Gafr Eto" a nifer o ganeuon Saesneg.

Roedd Margaret yn ein harwain ni a roedd Jonathan Griffiths yn canu'r piano. Mae ei dwy ferch, Catherine ac Emma, hefyd yn y côr a roedd unawdau gan y ddwy a thriawd gyda Becky Porter, sydd wedi bod yn y côr am flynyddoedd maith. Mae ei mam hi, Dee, yn Côr Merched Richard Williams.

Canon ni mewn dwy gyngerdd arall - mewn ysbyty ac mewn rhyw fath o westy ble mae hen bobl yn dod i ymlacio a chael gwyliau. Yma, canon ni lawer o ganeuon yn yr haul mewn cyngerdd tu allan, yn cynnwys "Adeamus" gan y Cymro Karl Jenkins. Roedd pawb wedi blino erbyn hyn!

Yn ystod ein hamser yn Valkenburg cawsom lawer o hwyl yn cymryd rhan yn nifer o weithgareddau gwahanol, yn cynnwys bowlio, lifftiau cadair, gwib gartio a thrip i ogofau enwog Valkenburg a'r lloches niwclear.

Mae llawer o ddisgyblion Ysgol Gyfun Llanhari yn aelodau o'r côr - Bethan Williams a finau ym Mlwyddyn 7, Becky Williams a Rhiannydd Rosser ym Mlwyddyn 8 a chwaer Rhiannydd, Bethan, ym Mlwyddyn 11. Rwyn siwr eu bod pob un ohonynt wedi mwynhau eu hamser yn yr Almaen a Valkenburg cymaint ag y gwnes i.

Gobeithiwn fynd ar drip eto gyda'r côr yn y dyfodol.

Catrin M Greaves

oedd effeithiau'r chwyldro diwydiannol wedi trawsnewid natur y gymdeithas a phan oedd cymunedau amaethyddol yn cyflym ymddatod.

Ond hoffwn, am y tro, droi at yr hen driban a ddyfynnir ganddo :

Pan fo Pen-tyrch yn llawan
Heb falais na chenfigan,
Fe fydd y mêl yn dod o'r cwar
A ffigysh ar y ddraenan!

Er mai camp amhosibl yw olrhain cân werin neu bennill traddodiadol yn ôl i'r 'awdur' gwreiddiol, gellir astudio'r amryfal amrywiadau o'r gân neu'r pennill a gofnodwyd mewn gwahanol gyfnodau. Gwelir yr union duedd yn hanes datblygiad rhai tribannau, ac fel y gellid disgwyl, nid anodd o beth oedd ailgyfansoddi penillion o'r fath, yn enwedig y rhai a fyddai'n dilyn rhyw fformiwla arbennig, er mwyn addasu'r cynnwys at alwadau rhanbarth neu ardal arbennig. Byddai cynnwys enw lle, felly, yn nghorff y triban neu'r pennill yn golygu bod modd olrhain taith y pennill o gwmwd i gwmwd. Ni ellir canfod gwell eglureb o'r duedd hon na'r triban a welir uchod.

Y mae Cadrawd (T.C. Evans) brodor o Langynwyd yn ei dadogi ar Wil Hopkin ac yn ei gyflwyno fel a ganlyn :

'A sarcastic prophecy referring to the inhabitants of Llan[gynwyd] :
Pan fyddo'r Llan yn llawen,
Heb falais na chenfigen;
Bydd mêl yn tarddu ma's o'r cwar
A ffigys a'r y ddraenen.'

(History of Llangynwyd Parish (1887), 110)

Ar y llaw arall, roedd gan drigolion Glyn Nedd eu fersiwn leol eu hunain yn cychwyn gyda'r llinell 'Pan fyddo Pont Nedd Fechan' er bod y pennill wedi crwydro hefyd i ddwyrain y sir : 'Pan fo Caerffili'n llawen'. Yng nghasgliad Jenkin Howell (Aberdâr) ceir ffurf sy'n lleoli'r triban y tro hwn yng Nghwm Rhondda cynefin Gwŷr y Glören :

Pan fyddo Cwm y Glören,
Heb elyn na chenfigen,
Bydd mêl yn tarddu maes o'r cwar,
A ffigys ar y ddraenen.
(Y Cymmrodor, xxiv (1913))

A dyma Mr Llywelyn yn cyflwyno'i fersiwn blwyfol yntau. Nod y sylwadau yw dangos fod trigolion gwahanol ardaloedd drwy beri newid ffurf pennill, yn gallu mabwysiadu'r fersiwn drwsiedig fel rhan o'r gynhyrsgaeth lenyddol leol.

Cyn tewi byddai'n werth nodi enghraifft bellach sydd â chysylltiadau lleol. Erbyn hyn enillodd y gân 'Ym Mhont-y-pridd mae nghariad' ei phlwyf yn y repertoire gwerinol er bod gwahanol fersiynau yn dangos fod y geiriau hyn eto wedi'u haddasu wrth i'r gân ddatblygu a chrwydro. Wele fersiwn Iolo Morganwg o'r gân wedi'i lleoli yng nghyffiniau Pen-y-bont ar Ogwr :

Yn Saint-y-Brid mae 'nghariad,
Yn Saint-y-brid mae 'mwriad,
Yn Saint-y-brid mae merch fach lân,
Os caf hi o flân y 'ffairad.
(G.J. Williams,
Iolo Morganwg(1956), 64)

Ceir fersiwn bellach o'r pennill yn llyfr nodiadau Sam y Delyn (Pontrhydyfen), y ferch y tro hwn o'i ardal yntau :

Yn Rhydyfen mae nghariad,
Yn Rhydyfen mae mwriad,
Yn Rhydyfen mae merch fach lân
Os ca hi o flân y Ffairad.

Dan ddylanwad y traddodiad llafar ac yn absenoldeb unrhyw ffurf safonol, gydnabyddedig, roedd yn bosibl i nifer o amrywiadau ddatblygu, amrywiadau a fyddai'n dangos mân wahaniaethau yn y dewis o eiriau neu'n gystrawennol, yn yr iaith neu yn y dafodiaith. Proses organig oedd hon a'r amrywiadau testunol yn adlewyrchu chwaeth y gymdeithas gyfan yn hytrach na mympwyon golygyddion unigol. Dyma Bentyrch, yng nghydestun y triban hwn, yn rhan o'r gadwyn draddodiadol.

Allan James
Llantrisant

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau mawr i Dr Eurig Lloyd dirprwy Brifathro Ysgol Gymraeg Tonyrefail. Mae Eurig wedi bod yn gweithio ar y cudd ac wedi ennill ei ddoethuriaeth ar hanes. Mab i'r Parchedig a Mrs W. Alwyn Lloyd cyn weinidog Tabernacl Porthcawl yw Eurig ac yn byw ym Mhorthcawl. Dymunwn wellhad buan i'r Parchedig W, A. Jones sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

DARLLENYDD NEWYDD

Mae'n bleser mawr gael darlennydd newydd o'r Papur Bro Tafod Elái sef Mr Derek Hallah o Goedlai, gŵr yn wreiddiol o swydd Efrog yw Derek ac wedi byw yn y Ton ers yn ifanc. Mae yn cael hyfforddiant yn dysgu'r iaith yn y ganolfan iaith ym Mhentre'r Eglwys Uchaf.

BETHLEHEM CWMLAI

Ar ddydd Iau y 18fed o Fedi daeth y newydd trist am farwolaeth Mrs Moira Perry a hithau ond 54 oed. Merch o Donypandy oedd Moira wedi ymaelodi yn yr eglwys ychydig dros flwyddyn yn ôl ac wedi dod yn amlwg iawn yng ngweithgareddau'r eglwys. Un peth amlwg yr oedd wedi ymgymryd ag ef oedd cylchlythyr misol a hyn a graen arno. Bu'r gwasanaeth angladdol ym Methlehem ar ddydd Gwener y 27ain o Fedi dan ofal y Gweinidog Y Parchedig Ernie Banwell B.A. ag yna i Amlosgfa Llangrallo. Cydymdeimlad dwys â'r ferch Catherine a'r teulu i gyd.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlad dwys â Walter a Shirley Jones a'r teulu Heol y Gilfach Tonyrefail ar i Walter golli ei frawd Peter a oedd yn byw yn Aberystwyth. Roedd Peter wedi bod yn wael ers dipyn o amser ac ar ôl ymladd yn galed colli'r frwydr a wnaeth. Geidw weddw a theulu. Mae yna frawd arall Paul sydd yn athro ag yn byw yn Ninbych.

Ar ben hyn i gyd mae Walter wedi cael damwain ar ei goes yn ddiweddar a hyn ryw dri chwarter ffordd i fynny i Cadair Idris. Mae wedi gorfod cael triniaeth law feddygol ac yn gwella yn arbennig o dda, ond yn anffodus fe

sythiodd yn y tŷ a niweidio y goes eto. Rwyn siwr y bydd yn well yn fuan a bydd yn ôl yn rhodio mynyddoedd a brynau Cymru, fel y cofiaf ei gwmni diddan yn y gorffennol. Fel dau aelod o'r Amgueddfa Werin cofiaf llawer o deithiau, un yn arbennig ar fynydd Penygraig y Rhondda. Brysia i wella Walter.

MARWOLAETH TOM MORGAN

Ar fore dydd Mawrth y 15fed o Hydref daeth y newydd am farwolaeth Thomas Aeron Morgan (Tom Llaeth). Er nad oedd yn annisgwyl yr wythnosau diwethaf, roedd wedi treulio dipyn o amser mewn ysbytai, on fe ymsefydlodd yng Nghartref Gelliseren tan rhyw fis cyn ei farw, pan dygwyd ef i ysbyty Llwynypia, ac yno daeth y frwydr i ben.

Brodor o Ystrad Rhondda oedd Tom a chnewyllyn o Geredigion fel y gwelir yn ei enw canol. Roedd teulu ei dad yn hannu o Geredigion. Daeth i fyw i Donyrefail yn y 60au cynnar a bu'n dosbarthu llaeth yn yr ardal am flynyddoedd. Roedd yn dipyn o gymeriad. Geidw weddw Nansi ar unig blentyn Elaine a dau ŵyr ag un wyres.

Bu'r angladd brynhawn Llun 21ain o Hydref yn amlosgfa Llangrallo pryd y gwasanaethwyd gan y Parchedig Mrs Ashton o Gwmparc.

YN EISIAU Arweinyddiom i Gylchoedd Meithrin Tonteg ac Aberpennar

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod dros ddeunaw oed ac yn rhugl yn y Gymraeg neu yn ddysgwr profiadol. Â phrofiad gweithio gyda phlant bach ac yn barod i wneud cwrs byr os nad yw cymhwyster gyda hi/fe eisoes.

Oriau a chyflog i'w trafod

Cysylltwch â: Debbie Langford
Swyddog Datblygu
Mudiad Ysgolion Meithrin
Ffôn: 07968 154774
E-bost: swyddogcynontaf@hotmail.com

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

PEN-BLWYDD

Llongyfarchiadau i Miss Edwina Roberts Bron Awel, Cambrian Avenue a ddathlodd ei phenblwydd yn 89 oed ar Hydref 4ydd. Dymuniadau gorau iddi am lawer penblwydd eto.

WEDI GWELLA

Mae pawb yn falch iawn i weld Mrs Beryl Rees, Meadow Street wedi gwella ar ôl ei salwch ac yn mynd am dro o gwmpas y lle unwaith eto.

GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Kizzy a David Pritchard ar enedigaeth Shay ar Hydref 4ydd, brawd i Tia ac wyr i Michael a Moira Webb a gorwyr i Jacqueline a Mike Webb a Tommy a Christine Evans. Mae Kizzy yn gynddisgybl Ysgol Llanhari ac Ysgol Gymraeg Tonyrefail.

DYSGU'R IAITH

Mae'n dda gweld fod pobl eisiau dysgu Cymraeg. Mae dosbarth newydd yn cyfarfod yn Neuadd Cambrian Avenue ar Nos Fawrth o 5 -7 o'r gloch. Athrawes y dosbarth yw Paula Howells. Croeso mawr i unrhyw un sydd eisiau dysgu Cymraeg.

Mae Dosbarth yn cyfarfod hefyd yn Calfaria ar brynhawn Dydd Mawrth o 1-30 tan 3 o'r gloch dan arweiniad Mrs Megan Evans ac mae croeso i unrhyw un i ymuno â'r dosbarth.

DIOLCH YN FAWR

Mae'r bobl sy'n mynd i'r ganolfan ddydd yn y Stryd Fawr am ddiolch o galon i blant Ysgol Gymraeg Tonyrefail am eu caredigrwydd yn rhoi'r rhoddion o'r Gwasanaeth Cynhaef iddyn nhw a teimlant i'r plant fod yn garedig iawn i'w dewis. Mae pawb am ddweud DIOLCH YN FAWR IAWN i'r plant am feddwl amdanynt. Pob dymuniad da i'r plant ac i'r ysgol.

Ysgol Evan James.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhianon Cennard a'i gwr Colin ar enedigaeth Sion Gwion, brawd bach i Guto.

Y Ganolfan Hanesyddol

Aeth dosbarthiadau 5 i 13 i weld arddangosfa o ddeinosoriaid yn Y Ganolfan a dysgu llawer o wybodaeth. Bu Mr. Brian Davies yn siarad gyda phlant blwyddyn 5 am Yr Ail Ryfel Byd a phlant blwyddyn 6 am yr ardal leol.

Yr Urdd

Cafodd plant blwyddyn 5 a 6 benwythnos braf yn Llangrannog rhwng Hydref y 4ydd. a'r 6ed. yn mwynhau holl weithgareddau'r gwersyll. Diolch i Meilir Tomos, Nia Williams, Kerry Hughes a Delyth Blainey o'r ysgol a wnaeth yn siwr bod y plant yn cael amser da.

Traws Gwlad Yr Urdd

Aeth tua 30 o blant yr ysgol i Gaeau Prifysgol Morgannwg i gystadlu. Llongyfarchiadau i Meilyr Geraint Rees am ennill ras bechgyn blwyddyn 6 ac i dim merched blwyddyn 5 am orffen yn gydradd ail gydag Ysgol Castellau.

Rygbi

Mae'n amser ymarferion rygbi unwaith eto. Chwaraeodd tim yr ysgol yn erbyn Maesycod : gwaetha'r modd colli wnaethon nhw o 20 i 10, ond 'roedden nhw'n falch bod un sy'n ymarfer gyda nhw, Steven Williams, yn fasgot i dim rygbi Pontypridd Nos Wener Medi'r 20fed.

Sioeau

Aeth plant blwyddyn 3 a 4 i sesiwn y prynhawn o 'Popio' yn Y Miwni a chael cyfle i bleidleisio dros enillydd gorau'r prynhawn; ac aeth plant Yr Adran Iau i'r Miwni hefyd i weld 'Y Sioe Wirion 'Na' i ddathlu ugain mlynedd o fodolaeth S.4.C. a mwynhau'n fawr.

Ysgol Gymraeg Tonyrefail

Bu yr hanner tymor diwethaf yn un hynod o brysur.

Barddoniaeth

Cafodd yr adran Iau ymweliad gan Mrs Kate Williams sydd yn arbenigo ar ysgrifennu barddoniaeth i blant. Treuliodd y diwrnod yn mynd o gwmpas y dosbarthiadau yn ysgrifennu barddoniaeth gyda'r disgyblion. Bu yn ddiwrnod diddorol ac addysgol iawn. Yna ychydig cyn y gwyliau clywsom fod rhai o'n disgyblion wedi ennill cystadleuaeth farddonol. Fel gwobr byddant yn cael eu gwaith wedi ei gyhoeddi mewn cyfrol o'r enw "The Hidden Treasures of Wales". Dyma eu henwau Martyn Romans, Samuel Pritchard, Joshua Beach, Teya Kiff, Tim Harvey, Shaun Harrison, Amy Llewellyn, Celyn Ferris, Alex Whitehead, Claire Hortop, Bethan Williams, Elin Jones, Aaron Daye, Ffion Edwards a Catherine Evans. Diolch hefyd i'w hathrawes Mrs Jean Williams.

Celf

Bu'r rhieni a'r plant yn gyfan gwbwl, yn weithgar ym myd celf. Crewyd tapestri yn cynrychioli yr Ysgol a'r gymdeithas o'i chwmpas. Erbyn hyn mae wedi ei fframio gan y gofawr Mr Fussell ac i'w weld y tu allan i swyddfa y Prifathro. Diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth a'u gweithgarwch yn y maes yma. Yn ychwanegol at hyn gwahoddwyd artist i fewn i'r Ysgol i gyd weithio gyda phlant Bl 5 a Bl 6 sef Mr Anthony Evans. Y nod yw creu ffenestri lliw sydd yn olrhain hanes Tonyrefail. Edrychwn ymlaen i weld y gwaith terfynol.

Chwaraeon

Ni fu yr adran chwaraeon yn dawel ychwaith. Cafwyd gemau rygbi yn erbyn Ysgolion Trehepcyn a Llantrisant. Canlyniad y cyntaf oedd pymtheg pwynt yr un. Ond colli wnaethom yn erbyn Llantrisant gyda sgôr o bymtheg pwynt i ddauddeg pump. Yna rhedodd Blynnyddoedd 4, 5 a 6 yn ras traws gwlad yr Urdd yn Nhrefforest. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.



Mrs Binding o'r elusen Dr Barnardo

Diolchgarwch

Cynhaliwyd y gwasanaeth Diolchgarwch blyneddol yn neuadd yr Ysgol. Addurnwyd yr ystafell â ffrwythau, a ddosbarthwyd yn ddiweddarach yn y ganolfan ddydd yng Ngilfach Goch. Ond y brif rhodd oedd casgliad o £700 tuag at yr elusen Barnardo. Cynrychiolwyd y gymdeithas gan Mrs N. Binding a roddodd ddiolch i'r plant a'r rhieni am eu haelioni.

Ymweliadau

Ymwelodd BI 4 â Chanolfan Glyn Cornel i astudio sut mae cadwyn fwyd yn gweithio. Roedd yn braf i fod allan yng nghanol byd natur a'r dosbarth yn dysgu heb yn wybod iddynt. Y diwrnod canlynol Llangrannog mwynhau oedd y gyrchfan. Treuliodd 35 o'r plant benwythnos hapus a chyffrous yno. Yr athrawon a oedd yn gyfrifol oedd Miss C. Hughes, Miss N. Downes a Dr E. Lloyd.

Sefydlu Cwmni Cyfrifiaduron

Mae Vincit Cyf wedi ei sefydlu ym Mhontyclun i ddarparu gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gwmnïau bach. Mae'r cwmni newydd wedi derbyn contractiau cwmni Firm Friends a bydd yn datblygu gwasanaethau ar draws Cymru. Targedir y gwasanaethau i Fusnesau Micro, Bach a Chanolig a darperir sustemau cyflawn, rhwydweithio a rheolaeth. Bydd gwasanaethau i gynorthwyo cwmnïau i ddatblygu potensial y rhyngrwyd. Mae'r cwmni yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r Cwmni wedi agor Siop Dechnoleg newydd yn 75A Llantrisant Road, Pontyclun a gellir cysylltu â'r cwmni drwy ffonio 01443 229414 neu drwy www.vincit.co.uk.

Ysgol Creigiau

Llangrannog

Mawr fu'r edrych ymlaen at y pedwerydd o Hydref pan oedd plant Blwyddyn 5 a 6 yn mynd i Llangrannog am benwythnos. Buom yn brysur drwy'r amser yn rhoi tro ar y gweithgareddau amrywiol ac yn bwyta'r bwyd blasus nes yr oeddem i gyd wedi blino'n llwyr erbyn cyrraedd adref brynhawn dydd Sul. Diolch i Miss Davies ac i Miss Roberts am ddod gyda ni a gobeithio iddyn nhw fwynhau eu hunain cymaint â ni.

Gwasanaeth Diolchgarwch

Class 5 oedd yn gyfrifol am Wasanaeth Diolchgarwch yr ysgol eleni gyda phob adran o'r ysgol yn cyfrannu eitem. Braf oedd cael cwmni dau oedolyn yn y gwasanaeth, sef, Mr John Holton ac Emma Marshall. Arddangoswyd y bwyd a gyfrannodd y Babanod a'r Clwb Garddio ynghyd â threfniant natur gan Mrs Hurford. Eglurodd Mr Holton sut y byddai'r bwyd yn cael ei ddefnyddio gan Fyddin yr Iachawdwriaeth i helpu pobl llai ffodus na ni yng Nghaerdydd. Rhoddodd Emma Marshall nifer o enghreifftiau i ni sut y mae Barnardos Cymru yn defnyddio'r arian y maent yn ei gael cyn derbyn siec am £239.03, sef, casgliad Diolchgarwch yr ysgol

Neuadd yr Eglwys

Aeth Côr yr ysgol i Neuadd yr Eglwys i ddiddanu Cymdeithion Creigiau. Cawsom groeso cynnes ac wedi canu nifer o emynau a chaneuon llawn sbri, cawsom ddiolch blasus, sef, diod a bisgedi siocled.

Penblwydd Hapus

Penblwydd hapus i Jac y Jwc. Roedd yn dathlu penblwydd arbennig iawn - 25oed! Ar ôl i'r ysgol ganu iddo cafodd barti penblwydd yn Nosbarth 1. Roedd y jeli yn flasus iawn yn ôl pob sôn!

Croeso

Croeso i ddau fyfyrwr i'r Adran Gymraeg. Mae Miss Jones a Mr Rock wedi cychwyn yn Nosbarth 1 a byddant yn dod yn ôl i gael profiad mewn dosbarthiadau eraill yn yr Adran yn ystod y flwyddyn.

Cromlech Creigiau

Fel rhan o'n gwaith ar y Bobloedd Cynnar, aeth Dosbarth 5 i weld y Gromlech sydd erbyn hyn yng ngardd Cae'r Arfau. Wedi edrych yn fanwl arni buom yn creu brasluniau ohoni. Diolch i'r rhieni caredig a aeth â ni yno yn eu cerbydau.

Hwyl Fawr

Dymuniadau gorau i Mrs Tewkesbury sydd wedi cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth. Rydym yn ffodus fod Mrs Stone, sy'n gyfarwydd i ni i gyd, yn cymryd ei lle.

Tesco

Aeth Robert Morgan ac Olivia Grant gyda Mrs Davies i Tesco, y Bad Uchaf, i dderbyn tystysgrif am gasglu cymaint o docynnau cyfrifiadur, ac i dderbyn cyfrifiadur a meddalwedd oddi wrth Jane Davidson.

Pêl-droed

Aeth tîm pêl-droed yr ysgol i chwarae yn erbyn Trefforest. Cafodd Mr Evans ei blesio'n arw gan fod y tîm wedi chwarae'n arbennig o dda er iddyn nhw golli o un gôl i ddim.

Rygbi

Derbyniodd pob plentyn ym Mlynnyddoedd 5 a 6 dystysgrif am gwblhau'r gwersi rygbi yn llwyddiannus gyda Mr Williams a Mr Wyatt. Aeth y tîm rygbi i Rhiwbeina i gymryd rhan mewn cystadleuaeth yno.

P.C.Jones

Daeth P.C.Jones i'r ysgol i siarad gyda'r Babanod Cymraeg ddwywaith! -_ond nid am eu bod nhw'n ddrwg. Daeth â Bobi y car gyda hi un tro a dangosodd ei gwisg a'i hoffer a fideo i'r plant. Roedd pawb wedi mwynhau ac wedi dysgu llawer hefyd.

Y Meddyg

Diolch i Doctor Herbert {mam Geraint, Catrin ac Aled} am ddod i siarad â Dosbarth 3 am rannau'r corff sy'n ymwneud â'r Synhwyrâu, sef, thema'r dosbarth y tymor hwn.

Llythyr

Bu plant Dosbarth 4 yn brysur yn ysgrifennu llythyron i'w rhieni i ddiolch am eu cartrefi cyn cerdded i'r Swyddfa Bost i'w postio.

Gwibdaith Dosbarthiadau 4 a 5

Aeth plant Dosbarth 4 a 5 i ymweld ag Eglwys Gadeiriol Llandaf. Diolch i'r gwirfoddolwyr fu'n ein tywys o gwmpas yr adeilad ac yn adrodd ei hanes. Ar ôl cael cinio yn y parc, aethom i gyfarfod y Parchedig Gareth Rowlands, gweinidog Bethlehem, Gwaelod y Garth. Eglurodd a dangosodd ddau o'r sacramentau i ni, sef, y bedydd a'r cymun. Diolch yn fawr iddo am y croeso.

Swyddog Cysylltiadau Busnes Menter Caerdydd



Fy enw yw Leah Gwyn Rhydderch ac rwyf newydd gael fy mhenodi yn Swyddog Cysylltiadau Busnes Menter Caerdydd. Gwaith y Fenter yw hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar draws Caerdydd, yn codi ei phroffil ym mhob agwedd o fywyd y gymuned. Hanfod fy swydd i fydd sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle canolog ym musnesau ardal Caerdydd a phwysleisio fod yr iaith Gymraeg yn iaith fyw ac y byddai presenoldeb yr iaith yn fantais gystadleuol iddynt

Rwy'n byw yng Nghaerdydd ond treuliais y rhan fwyaf o'm hieuenctid yn Nhudweiliog ger Pwllheli, Pen Llyn, ardal yn llyfeirio o laeth a mêl!. Bum yn ddisgybl yn Ysgolion Tudweiliog a Botwnnog, Coleg Penrallt Pwllheli cyn mentro i'r ddinas i astudio'r Gyfraith ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd. Graddiais eleni a threulio fy ngwyliau haf yn trafeilio Ewrop.

Rwy'n Gymraes i'r carn a theimlaf bod byw ym Mhen Llyn wedi sicrhau fod Cymreictod a'r Iaith Gymraeg yn agos iawn at fy nghalon. Y mae dyfodol yr iaith Gymraeg yn bwysig iawn i mi. Y mae galw mawr am statws swyddogol i'r iaith Gymraeg a hynny yn enwedig yn y sector preifat. Mae'r iaith Gymraeg yn iaith ddeinameg sy'n tyfu. Dylid manteisio ar y cyfle felly i gyflwyno'r iaith i fusnesau gan bwysleisio arf mor bwysig ydyw ym myd cystadleuol busnes. Nid ffosil yw'r iaith Gymraeg ond iaith sydd yn ffynnu, ac edrychaf innau ymlaen fel rhan o dim Menter Caerdydd i'w hyrwyddo a'i hamddiffyn a rhannu awydd pobl leol i weld mwy o ddefnydd ohoni.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Bethan Griffith

Dymuniadau gorau

Gwellhad buan i Ioan Davies, Maes y Sarn wedi iddo gael triniaeth ar ei benglin yn ddiweddar.

Prifysgol

Pob hwyl i Helen Ashmore wrth iddi ddechrau ei blwyddyn gyntaf yn astudio'r gyfraith yng Ngholeg Bryste.

Y Gyfraith

Pob hwyl eto i Catrin Rees sy'n parhau gyda'r Gyfraith yng Nghaer.

Clwb y Dwrllyn

Oherwydd tywydd anffafriol (i ddweud y lleiaf!) gorfu gohirio'r taith gerdded. Gobeithir ei ail drefnu rhywbryd eto. Ar Nos Wener 1af o Dachwedd, cynhelir Twmpath Dawns yn Neuadd y Pentref - Cofiwch eich 'sgidie dawnsio!

Cydymdeimlad

Hoffwn estyn ein cydymdeimlad a Penri, Carol a'r merched wrth i Penri golli ei fam yn ddiweddar. Yn enedigol o'r Bargoed bu'n byw ym Mhorthmadog a Chaerdydd.

Wyres Gyntaf

Longyfarchiadau i Angela a Lyn Devonald (O'r Diwedd, Ffordd Cefn Bychan) ar enedigaeth eu wyres gyntaf, Ffion Elen. Hi yw merch fach gyntaf anedig Lowri a Jeremy Jones, Pontyclun. Ganed hi yn ysbyty Frenhinol Morgannwg, Llantrisant.

SEGURA

Nawr bod gan Ifan a Margaret Roberts, Ty Cnau, wyres fach arall yn yn y Gogledd, fe fydd gan "taid" fwy o amser bellach i hamddena yng nghwmni Betsan y babi newydd a'i chwaer fawr, Ffion. Mae e wedi ymddeol o'i swydd fel Cyfarwyddwr Personel S4C ddechrau mis Hydref ar ôl bod yn gweithio'n y diwydiant darlledu (i TWW, HTV, BBC, Teledu'r Tir Glas ac S4C) ers 1967. Yn ôl aderyn bach, fe gynhaliwyd un o'r achlysuron ffarwel yn Nhafarn Y Mochyn Du, Clos Sophia (tafam

Y Talwrn ym Mhorthcawl

Aeth dau o dîmau lleol yr ardal i recordio rhifynnau o'r rhaglen "Talwrn y Beirdd" ym Mhorthcawl ar ddechrau Hydref. Hon yw'r rhaglen amser cinio dydd Mawrth a Nos Sul ar Radio Cymru, lle mae Gerallt Lloyd Owen yn cloriannu gwaith dau dîm yn erbyn ei gilydd. Mae'n rhaglen sy'n rhedeg ers tua 1978 gyda Gerallt wrth y llyw - ac fel Y Meuryn y mae nhw'n cyfeirio at ei waith fel beirniad y ddwy ochr bob amser.

Roedd "Aberhafren" (Rhys Dafis, Llion Roberts a Tom Preis) yn wynebu Y Sgwod mewn un rhaglen i'w darlledu yn nhrydedd wythnos Hydref tra bod "Dwrllyn" (Menna Thomas, Rhodri Gwynn-Jones, Emyr Phillips, Dr Dafydd Huws ac Ifan Roberts) yn ceisio cael y gorau ar dîm "Y Garfan" ar gyfer y rhaglen ganlynol yn y gyfres. Mae aelodau'r tîmau lleol bron i gyd yn aelodau o ddosbarth nos Rhys Dafis yn Festri Gwaelod y Garth tra bod y Sgwod a'r Garfan yn mynychu dosbarthiadau Tudur Dylan yn ardal Caerfyrddin.

Wnawn ni ddim datgelu'r canlyniadau - rhag ofn i'r rhifyn hwn ymddangos cyn i chi eu clywed. Ond digon yw dweud fod y ddau dîm wedi cael gwell hwyl arni yn y gorffennol!

Roedd yr ornest yn cael ei chynnal yn y Tabernacl, Porthcawl, ac yr oedd y lle'n orlawn. Gan bod llond bws o gefnogwyr wedi cyd-deithio gyda'r Sgwod a'r Garfan roedd hi'n llawenydd i'r ddau dîm lleol weld un bach o ardal y Creigiau (yn wir un o ohebwyr ffyddlon y Tafod, Nia

yr Huwsiaid o Bentyrch, wrth gwrs) - hanner canllath o hen gartre Sianel Pedwar Cymru pan agorodd honno yn 1982.

Merched y Wawr

Cafwyd noson arbennig i ystwytho ac ymlacio'r corff gyda Ann Jones yn egluro elfennau Yoga i ni. Yr achlysur nesaf yw noson gyda Parti'r Efail yn Ysgol Creigiau ar Rhagfyr 11eg.



Tîm Y Dwrllyn: Rhes flaen: Dafydd Huws (Ffwrnes Blwm), Menna Thomas (Efail Isaf), Emyr Phillips (Y Rhath). Rhes gefn: Rhodri Gwynn-Jones ac Ifan Roberts (y ddau o Bentyrch)



Y Doctor a'r Meistr: Dr Dafydd Huws yn cael gair o gyngor am ei ddyfodol fel bardd gan y Meuryn, Gerallt Lloyd Owen.



Tîm Aberhafren: Rhys Dafis (Creigiau), Llion Roberts (Caerdydd) a Tom Preis (Y Pil)

Williams) yn cyrraedd. Ond o'r fath siom! Roedd Nia yno am fod y cyn-dditectif Roy Davies o dim Y Sgwod yn gyfaill i'w thad! Y tro nesaf, hwyrach y bydd Nia'n addo cefnogi'r Dwrllyn ac Aberhafren - os na fydd cyfaill teuluol arall yn eu herbyn, wrth gwrs ac os bydd rownd nesaf i'r ddau dîm. Wps! Dyna chi'n gwybod nawr eu bod wedi colli!

Tudalen yr Ysgol



Ysgol Gynradd Gymraeg
Garth Olwg

Yr Hydref

Yn yr Hydref mae'r adar yn mudo i wlad gynnes dros y Gaeaf ac yn dod yn ôl ar ôl mis Ionawr. Hydref yw fy hoff dymor achos rydw i yn chwilio am goncyrs ac yn clymu nhw i gordyn a bwrw nhw yn ôl ac ymlaen.

Yn ystod yr Hydref mae rhai anifeiliaid yn gaeaf gysgu, ac mae'r wiwerod yn hela am gnau. Un o fy hoff bethau ym mis Hydref yw diwrnod Calan Gaeaf. Mae plant yn cerdded o gwmpas y strydoedd mewn gwisg ffansi ac yn dod yn ôl gyda llon bag o losin blasus!

Un o'r pethau rydym ni yn dathlu pob blwyddyn yn yr ysgol yw y Cynhaeaf. Mae pawb yn dod â ffrwythau a llysiau i mewn, ac wedyn rydym yn cerdded i un o'r cartrefi pobol hen, a rhoi anrhegion iddynt. Rydw i yn hoffi gweld y coed gyda dail o bob lliw fel oren, coch, porffor a llawer mwy.

Ar Dachwedd y pumed mae tân gwyllt yn saethu i'r awyr mewn pob cyfeiriad, a gwneud lliwiau prydferth. Bydd yr olwyn catrin yn gwibio yn ôl ac ymlaen a fflachio yn wyllt!

Stephanie Jenkins
Blwyddyn 4



Yn yr Hydref
rydyn yn casglu castan

Ha bach Mihangel a'r haul yn sgleinio
yn yr awyr,
dail y dawnsio
rownd y coed,
eisiau cotiau cynnes
felly ewch i gael hwyl!

gan Thomas, Christopher, Ieuan,
Danielle a Sara.



Ar lan y môr yn Llangrannog

Traws Gwlad

Ar dydd Iau y trydydd o Hydref cynhaliwyd traws gwlad yr Urdd ar gaeau Prifysgol Morgannwg. Yn cynrychioli tîm merched blwyddyn 5 Garth Olwg roedd Eiri, Anwen, Caitlin, Gwenno, Rebecca a Shelby. Roedd yn rhaid i bob un o'r merched redeg 1km ac fe lwyddodd pob un ohonom. Y pedair cyntaf oedd Rebecca yn 6ed, Caitlin 8ed, Eiri yn 10ed a Gwenno yn 11eg. Fe lwyddodd Shelby i ddod yn 23ain ac Anwen yn 24ain.

Fe ddaeth y tîm yn gyntaf gyda sgor o 35. Cafodd pob un ohonom ni darian fach am ddod yn gyntaf, tarian roedd pawb yn haeddu am ymdrechu mor galed.

Yn ogystal cafwyd perfformiadau arbennig gan rai o fechgyn blwyddyn pump a chwech yn ogystal â merched blwyddyn chwech.

Eiri, Anwen, Caitlin, Gwenno,
Rebecca a Shelby
Blwyddyn 5

Pentre Ifan

Roeddwn i wedi mynd i Bentre Ifan gyda tair o fy ffrindiau Abigail, Bronwen a Natasha. Roedden ni wedi mynd gyda athro blwyddyn pump, Mr Meredith. Roedd yna ddwy ysgol arall wedi mynd - Castellau a Heol y Celyn. Roedd dwy athrawes arall wedi mynd hefyd - Miss Davies a Mrs Davies. Pan cyrhaeddwn ni yno roedden ni wedi cael bwyd a wedyn dadbacio yn ein ystafelloedd a wedyn aethon ni i chwarae tu fas tan amser swper. Yna aethon ni i Langrannog i wneud wibgartio a sgio, roedd yn hwyl. Y diwrnod canlynol daeth dyn gyda adar ysglyfaethus. Roedd y tair diwrnod ym Mhentre Ifan yn dda, teimlais i wrth fy modd yno.

Sineh Decino Bl 6.

Ym Mharec y Coed

Rydw i'n casglu y castan gorau erioed.

Hwyl fawr i'r adar sy'n mudo
Yn hedfan i wledydd pell.
Dail yn dawnsio ac yn syrthio
Rownd y coed.

Edrych am fes a chnau
Fel y wiwer sy'n sboncio o goeden i
goeden,

Gan Ffion Rees, Marisa Jones,
Daniel Rees ac Andrew Rees.
Bwyddyn 6

Alex Warman,
Blwyddyn 4.

Llangrannog

Fe es i i Llangrannog ar ddydd Gwener Hydref 7ed. Cyrhaeddodd bws yr ysgol am un o'r gloch. Ar y ffordd roedd yn rhaid codi plant ysgol Gwaelod y Garth. Cyrhaeddodd ni Llangrannog am chwarter i bump. Pan ges i fy mag o'r bws es i lawr i'r ystafell i dadbacio fy mhethau. Yna clywais y gloch yn canu, roedd yn rhaid mynd i'r neuadd. Cawson ni ham a sglodion i fwyta. Roeddwn i'n hoffi'r bwyd.

Yn gyntaf aethon ni i'r gampfa. Roeddwn i'n hoffi'r gampfa oherwydd rydw i'n hoffi chwaraeon.

Yn ail fe gwnaethon ni chwarae yn y parc am hanner awr.

Fe aethon ni i'r gwely am naw o'r gloch. Pan es i i'r gwely roeddwn i wedi blino.

Codais i am saith o'r gloch y bore. I frecwast cefais ddarn o facwn a bara.

Y peth cyntaf wnaethon ni oedd mynd ar y ceffylau. Es i ar un o'r enw Enfys. Roedd Enfys yn fach, ac rydw i'n hoffi ceffylau bach.

Yn ail aethon ni ar y go-karts. Doeddwn i ddim eisiau mynd arnyn nhw. Nesaf aethon ni ar y Quads ac roeddwn i'n hoffi nhw.

Gwibgartio wnaethon ni nesaf. Dim ond un waith es i ar hwn oherwydd dydw i ddim yn hoffi gwibgartio.

Ar ôl cinio aethon ni i sgio. Roeddwn i'n hoffi sgio a doeddwn i ddim wedi cwmpo unwaith.

Rhaffau wnaethon ni nesaf. Roeddwn i wedi gwneud y cwrs i gyd. Cwmpais i tair gwaith.

Cefais de a swper ac wedyn es i i newid i'r disgo. Yn y disgo roeddwn i'n dawnsio. Gorffennodd y disgo am hanner awr wedi naw.

Es i i'r gwely yn syth oherwydd roeddwn i wedi blino'n lan ar ôl diwrnod llawn arall.

Lowri Prince Blwyddyn 6.

O Dduw diolch am flodau a chartref i fyw. Diolch am deulu ac am ffrindiau. Diolch am fwyd ac am ddillad glan. Diolch am goed ac am deganau. Amen

Rhianydd Thomas

Teulu bach newydd Garth Olwg



Rydwn i wedi gwneud pedwar deg pedwar o ffrindiau bach newydd yng Ngarth Olwg tymor yma. Rydyn ni i gyd yn blant Meithrin, ac yn hoffi chwarae ar yr iard feithrin.

Stori am yr Hydref

Tra roedden i allan am dro drwy'r dail crin, gwelais rywbeth od iawn o gornel fy llygaid. Gwelais i wiwer goch yn cysgu yn y dail. Roedd y wiwer yn bwyta cnau. Cerddais i yn ôl adre a gwelais i'r dail yn dawnsio. Roedd y dail yn newid lliw. Roedd y wiwer yn dilyn fi yn ôl i'r tŷ. Dwedais i wrth y wiwer "Pam wyt ti yn dilyn fi?". Cyrhaeddais i at ddrws mam. Roedd y wiwer wedi dilyn fi i mewn. Cerddais i lan y grisiau. Edrychais i mas o'r ffenestr a roedd y dail yn cwmpo bant o'r coed, ond doedd dim golwg o'r wiwer yn unman.

Gabrielle Williams Blwyddyn 3

Yr Hydref

Yn yr Hydref mae saith cysgadur yn mynd i gysgu ond cyn bod nhw'n mynd rhaid iddyn nhw fynd i gasglu bwyd. Mae wiwer yn casglu mes a chnau. Mae'r ffermwr yn paratoi i'r cynhaeaf ac yn casglu cynydau. Yn yr Hydref mae pethau yn tyfu ar y coed fel afalau, gellyg, mwyar duon ac aeron. Yn yr Hydref mae'r adar yn hedfan i wledydd poeth.

Hannah Hughes Blwyddyn 3



Diolch am gartref clyd
Heulyn Welsby Blwyddyn 1

Haiku am Chwarae

Rwyn hoffi chwarae
Chwarae gyda fy ffrindiau
Ar fy meic mawr glas

Daniel Tiley Blwyddyn 3

Rwyn hoffi chwarae
Rwyn hoffi chwarae pêl
Rwyn hoffi ffrindiau

Katie Morgan Blwyddyn 3

Un dydd aeth Dad a fi i'r parc.
Gwelais i wiwer yn mynd lan coeden a wiwer yn mynd ar yr hewl.
Gwelais i wiwer yn bwyta mes.
Cerddais i a Rhodri yn y dail.
Gwelais i lawer o liwiau.
Wedyn aethon ni gartref.

Rhian Parry Blwyddyn 2



Diolch am Mam a Dad
Rachel Jenkins
Blwyddyn 1

Diolch i ti o Dduw. Diolch am ffrindiau a theulu ac am goed a blodau. Diolch hefyd am fam a dad ac am fwyd. Diolch am bopeth! Amen.

Carwyn Roberts



MENTER IAITH

ar waith yn
Rhondda
Cynon Taf

01443 226386

www.menteriaith.org

HSBC YN CEFNOGI'R DYSGWYR UNWAITH ETO

Llinos Waters ddaeth o fanc HSBC i gyfarfod â'r dysgwyr ym Mhontypridd gyda Colin Williams, Craig Duggan a Steffan Webb. Cyflwynodd Colin Williams gyfres o dystysgrifau i'r dysgwyr a chyflwynodd Llinos Waters sicc am £5,000 gan y HSBC i Colin Williams i'w dosbarthu rhwng mentrau iaith Rhondda Cynon Taf, Caerdydd, Caerffili a Chastell Nedd Port Talbot er lles dysgwyr yr ardaloedd hynny. Mae cannoedd o bobl wedi elwa o grantiau bach rhwng £20 a £60 tuag at gostau eu cyrsiau, costau teithio, deunyddiau dysgu a chostau cyrsiau preswyl. Mae ychydig iawn o arian ar ôl yn y gronfa – os ydych chi'n nabod rhywun sydd eisiau cymorth ariannol tuag at ddysgu Cymraeg ffoniwch Rhian James ar 01686 877183.

BOREAU COFFI YN BOBLOGAIDD IAWN

Mae dysgwyr ardal Ynysybwl wedi



**Colin Williams a Craig Duggan yn derbyn sicc i'r Dysgwyr
oddi wrth Llinos Waters, HSBC**

sefydlu eu bore coffi eu hunain yn y capel yn y fan honno sydd yn dilyn ffasiwn yn yr ardal gyda Chapel Salem Tonteg yn darparu noson i'r dysgwyr, Gwilym Dafydd yn cynnal bore yng Ngwesty Pentre Coryton, y dysgwyr yn Ynysybwl a boreau coffi'r Fenter yn Pentre, Aberdar, Aberpennar, Pontypridd, a Llantrisant yn creu rhwydwaith trwy'r ardal i bawb gael mwynhau paned a sgwrs bob bore o'r wythnos – peidiwch â dweud nad oes cyfle gyda chi i siarad Cymraeg.

HYFFORDDI POBL BUSNES

Y mae deg o bobl wedi bod yn cael gwersi busnes Cymraeg o dan ofal Guto Bebb yng Nghanolfan Busnes TEEP Trefforest yn ystod mis Tachwedd – dyma'r trydydd cwrw mewn blwyddyn ac y mae mwy a

mwy o bobl yn dod ar y cyrsiau bob tro diolch i waith datblygu Julie Williams o'n swyddfa yn Aberdar.

CWLWM BUSNES Y CYMOEDD YN TYFU O HYD

Llwyddiant hefyd fu'r Cwlwm Busnes o dan ei gofal gyda dros 20 yn troi allan bob tro i wrando ar siaradwyr busnes o fri megis prifweithredwr Cyngor Chwaraeon Cymru. Golygydd Radio Cymru Aled Glynne Davies fydd yn trafod Gwersi Globaleiddio Radio Cymru yn y cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal am 6pm ar nos Fawrth 19eg Tachwedd yng Nghanolfan Menter y Cymoedd Abercynon

CRIW COCH YN PERFFORMIO YN Y CYNLLUNIAU'R CHWARAE

Gwych oedd gweld staff y Fenter yn eu crysau polo coch yn perfformio ar lwyfan Ysgol Rhydfelen, ac ymhob ysgol arall, i ddiddanu'r plant yn ogystal ag edrych ar eu holau nhw. Bu Sali Mali a Superted ar ymweliad i bob un cynllun chwarae a chyflenwad newydd o fideos Cymraeg i fynd gyda nhw. Cafwyd gweithdy dawns gan ferched Trysor a pherfformiad gwerth chweil ganddyn nhw unwaith eto. Er mawr siom i'r plant ni fydd y criw coch yn perfformio eto tan gynllun chwarae'r gwanwyn er efallai y bydd ymddangosiad sydyn mewn ambell i barti Nadolig.



Amy Davies a Vicky Pugh, y Trefnwyr Ieuencid newydd

CLYBIAU CARCO YN GWNEUD MWY

Fel y mac'r plant wedi cael gwneud llawer iawn ar gynlluniau chwarae'r Hydref y mac'n fwriad i wneud yn siwr bod llawer iawn mwy o weithgareddau yn digwydd ymhob un o'r clybiau carco hefyd er mwyn denu'r plant yn ôl dro ar ôl tro – drama, chwaraeon, gemau parasiwt, nosweithiau MacDonalds gyda Ronald MacDonald Cymraeg(?), ymweliadau â phartion gyda digon o gyfle i chwerthin yn y Gymraeg.

Ble mac'r clybiau? Aberdar, Abercynon, Bronllwyn, Bodringallt, Castellau, Dolau, Evan James, Garth Olwg, Heol y Celyn, Llanharan, Llwynycelyn, Llynforwyn, Pontsionorton, Rhydygrug, Tonyguboriau, Tonyrefail a Twynrodyn. Pryd maen nhw ar agor? 3.30 – 5.45pm bob dydd. Bob dydd? Ie, bob dydd. Faint mac'n costio? Llai na £4 y noson. Sut mac trefnu lle? Wel, galwch i mewn i'ch clwb lleol i gyfarfod y staff a gweld beth sy'n digwydd – cewch drefnu bweio eich plant chi i mewn yn y fan a'r lle. Os ydych chi eisiau gwybod mwy – ffoniwch Trystan neu Helen ar 01443 226386

CHWILIO AM STAFF GOFAL PLANT AC IEUENCTID

Os ydych chi'n chwilio am ychydig o oriau o waith bob wythnos beth am arwain clwb ieuencid o ryw fath? Byddai Amy a Vicky yn falch o glywed gennych chi ar 01685 882299 sef cartref CIC yng Nghanolfan Yr Urdd Aberdar.

Os oes gyda chi fwy o amser i'w sbario tua 12.5 awr yr wythnos rydym yn chwilio am staff brwdfrydig sy eisiau gweithio gyda phlant egniol a brwdfrydig mewn cyfres o glybiau carco ar draws y cymoedd mewn gwirionedd. 3.20 tan 6pm yw'r oriau. Mae hyfforddiant ac arweiniad ar gael ac y mac'r gwaith yn addas at bobl sydd wedi gwneud gweithgareddau plant, meithrin, ieuencid, chwaraeon, drama o'r blaen. Os ydych chi'n dysgu Cymraeg byddem yn falch o glywed gennych chi a byddai'r gwaith yma yn gyfle gwych i wella eich Cymraeg. Mae hyfforddiant o bob math ar gael i chi. Ffoniwch Trystan neu Helen ar 01443 226386.

FFORWM MUDIADAU GWIRFODDOL YN TRAFOD ADDYSG GYDOL OES

Cafwyd dros 20 o bobl hefyd i wrando ar Einir Wyn Thomas Elwa, Andrew Currie Coleg Glan Hafren a Colin Williams Addysg Gymunedol Rhondda Cynon Taf yn ystyried yr angen i wella'r ddarpariaeth dysgu gydol oes i siaradwyr Cymraeg. Ymddengys taw dim ond 2% o bobl ifanc sy'n dewis dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn colegau erbyn hyn a bod y ffigyr wedi bod yn gwaethygu, tan yn ddiweddar iawn, yn hytrach na gwella. Mae grantiau ar gael am brosiectau dysgu gydol oes, ac yn benodol prosiectau rhyng genhedlaethau, os oes gyda chi'r syniadau a'r brwdfrydedd i'w defnyddio.

HYRWYDDO DIWYLLIANT HYFFORDDIANT DWYS

Yn unol â chynllun corfforaethol newydd y Fenter y mac'r staff yn brysur iawn ar gyrsiau o bob math o Dechnoleg Gwybodaeth, Cyfrifo, Gweinyddu, Iaith, Ieuencid ac ati er mwyn gwneud yn siwr ein bod ar flaen y gad ac yn gweithio hyd at eithaf ein galluedd dros y Gymraeg yn yr ardal. Mae rhai wedi bod yn teithio trwy Brydain i gael yr hyfforddiant gorau sydd ar gael ac y mac holl staff y Fenter yn dod i arfer â hyfforddiant corfforaethol misol y Fenter eu hunan a gynhelir yn ein swyddfeydd newydd yn Nhreorci.

HYFFORDDIANT I BAWB

Mae arian hyfforddiant ar gael i chi hefyd – os ydych chi'n gweithio gyda rhyw grwp cymdeithasol, papur bro, cylch meithrin, côr neu grwp ieuencid. Cysylltwch a Gwion Rees ar 01443 440920 neu dewch i gyfarfod nesaf Fforwm Mudiadau

Gwirfoddol Cymraeg Rhondda Cynon Taf a gynhelir nawr yn Interlink ar 4/12/02. Bydd siaradwyr o Gronfa Gymuned y Loteri, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymunedau yn Gyntaf a'r Fenter yn esbonio sut mac modd defnyddio'r arian hyfforddiant a sut mac modd denu arian at brosiectau penodol eraill y gallwch chi ddatblygu.

ARWEINIAD I STAFF Y FENTER A'R PWYLLGOR NEWYDD

Erbyn hyn bydd gennym syniad o bwy fydd ar bwyllgorau'r Fenter am y flwyddyn 2002-03 er bod modd cyfethol pobl i'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn hefyd felly os ydych chi yn awyddus i gyfrannu rhwch wybod i ni. Yn ystod yr wythnosau cyn Nadolig bydd Gweithdy i Aelodau Newydd pwyllgor y Fenter fel cyflwyniad iddyn nhw gael deall beth mac'r Fenter yn trio ei wneud a sut mac modd i'r pwyllgor ddylanwadu ar waith y staff a chreu cyfeiriadau newydd i'r Fenter. Rydym yn credu yn gryf bod rhaid cael gwaed newydd yn gyson felly os oes unrhyw ddiddordeb gennych chi o gwbl rhwch alwad i ni. Mae pamffledyn newydd Menter Iaith 2002-03 ar gael gyda'r holl gysylltiadau swyddfa ac ati. Mae gennym holiadur cyffredinol am waith y Fenter sy'n rhoi cyfle i chi fynegi barn ar ein gwaith – os nad ydych wedi gweld copi ohono ffoniwch 226386 a chewch gopi yn y post – rydym am wybod beth dych chi'n meddwl.

Fel arfer y mac manylion am holl weithgareddau'r Fenter ar gael ar www.menteriaith.org

Steffan Webb
Prifweithredwr
Menter Iaith



Sali Mali a Superted yn hwyl gwyliu Hydref y Fenter

UWCHGYNHADLEDD Y DDAEAR AR GYFER DATBLYGIAD CYNALADWY JOHANNESBURG 2002

O ganlyniad i fuddugoliaeth Ysgol Gyfun Llanhari yng Nghystadlaeth 'Ein Byd' y WWF eleni, noddwyd disgybl ac athro i fod yn ddirprwyon yn nhîm llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mynychodd y ddau Uwchgynhadledd y Ddaear ar gyfer Datblygiad Cynladwy, yn Johannesburg yn ystod y cyfnod 29 Awst a 5 Medi. Mae Rhys yn ddisgybl o'r Chweched Dosbarth yn yr ysgol ac Alun Evans yn Bennaeth y Gyfadran Dechnoleg.

Gwelir isod gopiau o'r cardiau post anfonodd Alun at yr ysgol tra yn Ne Africa.

Dydd Gwener 29.08.02

Dyma fi yn ysgrifennu o'm hystafell yng Ngwesty Holiday Inn, Garden Court Milbank, ar ddiwedd y diwrnod cyntaf yn Johannesburg. Er mawr yr addewidion am dywydd braf, cawsom ein croesawu gan law yn yr awyrenfa! Ar ôl gadael Llundain am 9.30pm ddoe, fe gyrhaeddodd ni Dde Affrica am 9.30am bore 'ma. Rydyn ni awr o flaen Prydain yn Johannesburg. Treuliodd Rhys a minnau'r dydd yn Sandton, sef lleoliad yr Uwchgynhadledd ar gyfer dirprwyon y llywodraethau. Roedd angen imi gael pas ar gyfer cael mynediad i'r gwahanol fannau. Anodd oedd credu'r biwrocratiaeth sy'n weithredol ar gyfer gwneud y pethau symlaf. Mynnai un swyddog fy mod yn briod â Jill Evans, sef A.S. Ewropeaidd o Gymru. Mynychodd Rhys a minnau sesiwn rhagfrifio ar gyfer dirprwyon Llywodraeth y Deyrnas Unedig rhwng 6.00pm a 7.00pm. Wrth gwrs, pwysleisiwyd mai cyfrinachol oedd pob gair a ynganwyd!! **Alun**

Dydd Sadwrn 30.08.02

Diwrnod bythgofiadwy yn Soweto (South West Township), yn ymweld â dwy ysgol a mannau adnabyddus eraill. Ysgol Goud Park yn gyntaf, ble mae'r disgyblion yn dod o gartrefi tlawd iawn. Bydd nifer o'r plant yn cael eu camdrin yn rheolaidd o ganlyniad i'r rhieni yn yfed alcohol neu'n cymryd cyffuriau. Cartref i nifer o'r teuluoedd yw sied dun yng nghanol sefydliad o gannoedd ohonynt a elwir yn wersylloedd sgwatio anghyfreithlon. Anodd yw credu cyflwr gwael yr ardaloedd hyn. Bethany oedd enw'r ail ysgol, sydd o dan nawdd Byddin yr Iachawdwriaeth a'r RSPB. Mae'r ysgol yn cynnig cartref ac addysg i blant amddifad, 27 ohonynt yn dioddef o glefyd AIDS. Daliais faban a daflwyd i ffwrdd gan ei rieni! Cawn ein dilyn gan aelodau'r wasg i bobman, gyda Jason Mohammed ac Elin Gwilym o BBC Cymru, yn gwmni difyr yn gyson. Cawsom bryd o fwyd traddodiadol Soweto ym mwyty Wandie's, cyn symud ymlaen i weld lleoliad terfysgoedd 1976 a hen gartref Nelson Mandela, sydd 'nawr yn amgueddfa. Y tywydd yn ysbeidiol gwlyb ac yn gymharol oer! **Alun**



Dydd Sul 31.08.02

Ar ôl y glaw a'r oerfel, dyma ddiwrnod braf o'r diwedd – y tro cyntaf imi fentro gwisgo siorts! Draw i 'Gold Reef City' bore 'ma, sef parc yn debyg i Oakwood, wedi'i adeiladu ar hen safle pwll cloddio aur. Byr iawn oedd yr ymweliad yn anffodus gan fod swyddogion y llywodraeth wedi ein ffonio ac yn ein tywys draw i gwrdd â Michael Meacher ym Mhentref Ubuntu. Mae rhagofalon diogelwch yn dynn iawn. Ni ddatgelir symudiadau swyddogion y llywodraeth tan y funud olaf. Trefnwyd ein bod yn cwrdd â Meacher ar bwys llong Robert Swan, sef fforiwr Seisnig enwog sydd wedi archwilio pegynau'r Gogledd a'r De. Yn ddiweddar, mae wedi bod ar alldaith i Antarctica gyda 35 o bobl ifanc, yn clirio sbwriel a llygredd. Arddongoswyd y llong a ddefnyddiwyd yn Ubuntu, fel rhan o'r arddangosfa, gyda drysfa enfawr wedi'i ffurfio o ddarnau sbwriel a gasglwyd yn ystod y daith. Ubuntu yw'r lleoliad sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gofynion yr asiantaethau nad ydynt yn gysylltiedig â llywodraethau gwledydd penodol. Braf oedd gweld nifer o'r trigolion lleol yn marchnata'u nwyddau ar stondinau ar y safle. **Alun**


Dydd Llun 01.08.02

Diwrnod prysur arall heddiw, gan ddechrau gydag ymweliad â'r 'Waterdome' ac arddangosfeydd. Dyma ganolfan foethus ac addurniadol iawn yn cynnig arddangosfeydd gan amryw o wledydd yn seiliedig ar faterïon yn ymwneud â phrinder dŵr glân mewn mannau tlawd y byd. Es i a Rhys draw i Goleg Sant Ioan yn Houghton wedyn, sef safle ysgol fonedd, yn debyg i balas Arabaidd ysblennydd ar ochr y bryn. Cwrddodd ni â Rhodri Morgan yno ac amryw o ddisgyblion eraill o Gymru sydd draw yn Jo'burg, gan gynnwys Rhys Richardson a Nia-Meleri Ifan o Ysgol Gyfun Llanhari. Bu aelodau'r wasg yno yn recordio trafodaeth rhwng y plant â Rhodri. Aethon ni wedyn draw i'r Uwchgynhadledd i ddirprwyon y llywodraethau, yn Sandton, gyda'r bwriad o gwrdd â gweddill y grŵp. Gan ein bod wedi cyrraedd yn hwyr, crwydron ni o gwmpas gwahanol neuaddau ac ystafelloedd y ganolfan gan specian mewn ar wahanol ddadleuon. Mae rhagofalon diogelwch yn cynnwys mannau niferus lle mae'n rhaid dangos y pas swyddogol a phasio'ch eiddo trwy beiriannau pelydr-x. Buon ni'n ffodus iawn i gael mynediad i'r ystafell fach lle roedd gweinidogion, gan gynnwys Margaret Beckett, yn trafod cytundebau. Mae'n debyg na ddylen ni fod wedi cael mynediad; stori arall! Cinio mewn canolfan bowllo 10 heno er mwyn i bawb gael ymlacio. Pryd o fwyd i 14 person yn costio £34.00!! **Alun**

Dydd Mawrth 02.09.02 Gyda gweddill y grŵp yn ymweld â lle o'r enw Ivory Park heddiw. Mae gan Rhys a minnau ychydig o ryddid heddiw, yng nghwmni Alf Scrimgour (swyddog Kuoni) a'i fab Sam, 9 oed. Penderfynon ni ail-ymweld â chanolfan Ubuntu er mwyn archwilio'r arddangosfeydd yn agosach. Cawsom ginio mewn lle o'r enw 'Randburg Waterfront', sef canolfan siopa a mannau bwyta wedi'u lleoli o gwmpas llyn. Mwynheais wledd oedd yn cynnwys llymeirch, 'squid', corgimychiaid brenhinol ac amrywiaeth o bysgod eraill. Ymwelon ni â'r 'Global Peoples' Forum' yn Nasrek, er mwyn gweld arddangosfeydd a drefnwyd gan wahanol asiantaethau annibynnol y byd. Uchafbwynt y dydd oedd derbyn gwahoddiad i dderbynfa gan Margaret Beckett ar gyfer dirprwyon y Deyrnas Unedig, yng ngwesty Michaelangelo yn Sandton. Roedd yr ystafell yn gymharol fach gyda phawb yn cymdeithasu'n braf wrth fwynhau danteithion megis Caviar a Champagne. Daeth Tony Blair i ymuno am ychydig, yng nghwmni Alastaire Campbell. Er i ni fod yn agos, ni chawsom ni gyfle i siarad â'r Prif Weinidog, yn anffodus. Ar y llaw arall, buon ni'n cymdeithasu ag amryw o enwogion, ac yn siarad â Margaret Beckett. Bu'r croeso'n gynnes iawn gan Rhodri Morgan, fel arfer. Bŵm yng nghwmni David Trimble am gyfnod hir yn trafod pob math o bethau, gan gynnwys ei gyfarfod ag arweinydd Columbia yn gynharch yn y dydd! On'd yw bywyd yn brysur!! **Alun**

Dydd Mercher 03.09.02

Dechreuon ni'r dydd heddiw mewn lle o'r enw EcoCity yn Ivory Park, sef trefgordd rhwng Jo'burg a Phretoria. Prosiect yw EcoCity wedi'i sefydlu mewn ardal dlawd iawn, gyda'r bwriad o geisio hybu cydweithrediad yn y gymuned i fod yn fwy hunan-gynladwy. Roedd Rhodri Morgan yno hefyd, yn cyflwyno paneli solar gwerth £3,000 oddi wrth Gymru, yn rhodd ar gyfer pweru canolfan gymunedol. Unwaith eto, gwelsom dlodi enfawr, ond yr awydd i wella ac i lwyddo. Bŵm am 'dro' ar hen feic Swyddfa Bost o gwmpas y drefgordd! 'Nôl i Sandton wedyn, er mwyn cael ein tywys i mewn i brif neuadd yr Uwchgynhadledd lle y gwelom ni 3 arweinydd gwlad yn cyflwyno'u hareithiau. Bu damwain enfawr ar y draffordd ar y ffordd 'nôl i'r gwesty, gyda'r tagfeydd traffig gyda'r gwaethaf a gawsai Johannesburg erioed, yn ôl adroddiad ar y radio. Gwahoddiad draw i dŷ Cyfarwyddwr Masnach a Buddsoddiad Prydain yn Ne Affrica heno, yng nghwmi Rhodri Morgan, dirprwyon eraill o Gymru ac amrywiaeth o bobl eraill a chanddynt gysylltiad â'r famwlad. Cyfweiliad gyda Mr T.Brown, prif newyddiadurwr papur y 'Guardian' am 10.15pm, wedyn 'nôl i'r ystafell er mwyn pacio ar gyfer y saffari yfory. **Alun**



Dydd Iau 04.09.02

'Rwy'n ysgrifennu'r garden hon wrth eistedd yn fy mhabeall ac yn edrych allan drwy'r drws ar weddill y grŵp yn eistedd o gwmpas tân agored y gwersyll. (Mae'r torsi yn handi iawn!) Ar ôl gadael y gwesty aethom ni heibio i Bretoria gan aros mewn ychydig o lefydd ar y ffordd i Barc Cenedlaethol Pilanesberg oedd wedi'i leoli i'r Gogledd. Gwelsom ni argae lle roedd yr olygfa'n fendigedig ac arhoson ni ar bwys nifer fawr o stondinau 'curios' ar ochr y ffordd. Cawsom ni bicnic ar bwys Sun City, ar ôl prynu gwahanol bethau yn siop 'Spar', ond yn anffodus, chwarter awr yn ddiweddarach, cyrhaeddodd ni'r ganolfan groesawu, lle roedd cinio wedi'i baratoi ar ein cyfer yn annisgwyl. Roedd yn rhaid esgus, felly, ein bod ni heb fwyta! I ffwrdd ar saffari yn fuan wedyn ar lori/bws gyda'r ochrau'n agored. Does dim dal beth fydd ar gael i'w weld, gan fod yr anifeiliaid yn rhydd i grwydro ac wedi'u cuddweddu. Serch hynny, gwelsom sawl rhywogaeth, gan gynnwys eliffant, sebra, sbringboc, wilderbeest, afonfarch ac amrywiaeth o antelop. BBQ ar ben tân agored heno, gyda straeon difyr y ceidwaid i'n difyrru a rhuo brawychus y llewod yn y cefndir i'n pryderu! Nid oedd neb yn oedi wrth fynd am dro i'r tŷ bach! **Alun**

Dydd Gwener 05.09.02

Bu'n wyntog iawn neithiwr gyda storm enfawr drydanol yn ein heffeithio oddeutu pump o'r gloch y bore. Roedd y sŵn yn fyddarol am gyfnod a'r sioe oleuadau yn syfrdanol. Cyn hynny, braid yn annifyr oedd clywed sŵn yr anifeiliaid o gwmpas y gwersyll, gan gynnwys llewod, sebraod, babŵns ac eraill oedd yn anhysbys. Cysgais am ychydig, ond mae'n rhaid cyfaddef, rhyddhad oedd croesawu'r haul tanbaid amser brecwast. Mae'r hinsawdd yn rhyfedd; nid oedd unrhyw arwyddion o law y storm ar y ddaear wrth godi'n y bore. Buon ni ar saffari unwaith eto bore 'ma, ac yn ffodus i weld mwy o fathau o anifeiliaid gan gynnwys crocodeil, jiraff, rheino ac eraill. 'Nôl i'r gwersyll wedyn er mwyn cael brecwast hwyr, oedd yn cynnwys cig moch, ŵy, selsig a phapob, wedi'u coginio dros dân agored – blasus iawn. Ni ddarparwyd adnoddau ymolchi, felly, mae golwg druenus ar y mwyafrif ohonom! Ar ôl bod am dro, dan arweiniad y ceidwad, rydym ni ychydig yn hwyr yn gadael Pilanesberg. Bydd angen brysio ychydig er mwyn cyrraedd Johannesburg, casglu'r bagiau o'r gwesty a chyrraedd yr awyrenfa mewn pryd heno. Gobeithio y byddaf 'nôl yfory! **Alun**



EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Croeso

Mae'n braf cael croesawu rhagor o Gymry Cymraeg i'r pentref, Mae Toni ac Eilian wedi ymgartrefu yn Nant Celyn ers rhai misoedd bellach, Brodor o Lanybydder yw Toni ac mae'n rhedeg Cwmni Peirianeg ym Mhenybont ar Ogwr ac mae Eilian, sy'n hanu o Ben Llyn yn gweithio yn H.T.V yng Nghroescwrlwys.

Ffarwelio

Daeth yn amser ffarwelio â Les ac Italia Horscroft o Ben y waun. Mae'r ddau wedi symud i Ddihebid yn Sir Geredigion. Dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd.

Llongyfarchiadau.

Llongyfarchiadau i Geraint a Becky Thomas o Radur ar enedigaeth merch fach, Sophie Elizabeth. Mae Tad-cu a Mam-gu, sef David ac Avril Thomas Nant y Felin wedi dwlu ar eu hwyrtes fach gyntaf,

Llongyfarchiadau cynnes i Alun Rees, Heol Iscoed sydd wedi bod yn llwyddiannus yn cwblhau'r Cwrs Cymhwyster Proffesiynol ar gyfer Prifathrawiaeth, Mae Alun yn ddirprwy-brifathro yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn,

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr a Mrs Gwenda Bruce a'r teulu yn Heol Dowlais. Collodd Gwenda ei brawd, Mr Gwilym Price o Sir Fôn yn frawychus o sydyn yn ystod gwyliau'r Haf, Cydymdeimlwn hefyd a Caroline a Geraint Rees a'r teulu ym Mhenywaun ar farwolaeth Tad-cu Caroline yn ddiweddar ac yntau yn 102 oed. Roedd Mr Sowter wedi byw bywyd llawn iawn ac mae'n debyg ei fod yn dal i yrru car tan yn lled ddiweddar.

Gwobr werthfawr

Llongyfarchiadau i Meilyr Dixey, Heol y Ffynnon ar ennill dau docyn ar y rhaglen "AR Y MARC" Fore Sadwrn i fynd i'r gêm bel-droed fythgofiadwy yna yn Stadiwm y Mileniwm i weld Cymru'n curo'r Eidal.

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Meima Morse

Prifathro Newydd

Yn sgîl y newyddion a'r trefniadau calonogol sydd ar y gweill i ddarparu adeilad newydd Ysgol Gyfun Rhydfelen ar dir Gartholwg mae'n bleser gan yr ardal hon longyfarch a chroesawu Mr. Peter Griffiths fel Pennaeth newydd Ysgol Gyfun Rhydfelen. Nid dieithryn mo Mr. Griffiths i'r ardal gan, hyd yn gymharol ddiweddar, teithio i Ysgol Llanhari – ysgol bresennol Mr. Griffiths – a wnaï plant Gartholwg. Gwelir ef hefyd yn cefnogi pob achlysur cymdeithasol neu gystadluol lle mae'r ysgol yn cymryd rhan. Bydd newid o un "gwerysll" i'r llall, felly, yn dalpyn go fawr o sialens! Diolchir ichi, ar y llaw arall, am ymgymryd â'r dasg a phob dymuniad da ichi Mr. Griffiths wrth dorri cwys newydd arall ym myd addysg Gymraeg.

Mae diolch yn ddyledus i Mr. Bryan James, sy'n ymddeol fel Pennaeth Ysgol Gyfun Rhydfelen, am ei fewnbnw clodwiw yntau i gadw'r safon i fyny ar waethaf pob rhwystredigaeth o ran adeilad.

Yr Wyl Gerdd Dant

Pob hwyl i Barti'r Efail a Chôr Merched y Garth sydd yn brysus baratoi ar gyfer yr Wyl Gerdd Dant yn Nolgellau. Mae Côr Merched y Garth yn mentro nôl ar ôl egwyl go hir o fyd y cystadlu,

Y Tabernacl

Cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch i'w gofio ar Fore Sul Hydref 13eg. Braf oedd gweld y plant, y bobl ifanc a'r oedolion yn ymuno i wau gwasanaeth o ddiolch a oedd yn unigryw. Cyflwynodd y plant focsys ar gyfer yr elusen "Christmas Child" ac fe gafodd pawb a oedd yn bresennol ddarn o siocled a chwdyn te i danlinellu pa mor bwysig ydy cefnogi Masnachu Teg,

Oedfaon Mis Tachwedd

Tachwedd 3ydd Oedfa Gymun dan ofal ein gweinidog
Tachwedd 10fed Y Parchedig Dewi Lloyd Lewis
Tachwedd 17eg Y Parchedig Alwyn Lloyd
Tachwedd 24ain Y Parchedig Eirian Rees.

Cydymdeimlad

Mae'n meddyliau gyda Carys ac Elwyn Davies a'u teulu gan i Carys golli ei mam yn ddiweddar. Symudodd mam Carys i fyw i'r ardal hon o Amlwch ers cryn amser bellach. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwys wrth ichi geisio addasu i'ch colled fawr.

Ble maen nhw nawr?

Pwy? Wel, i ddechrau, beth am y rhai a oedd yn dal y bws i fynd i'r ysgol megis diwrnodau yn ôl – os oes gennych unrhyw gyfraniad i'r cyfeiriad hwn a wnewch chi ffonio 202737 oherwydd byddai'r gymdogaeth â diddordeb mawr i rannu'r wybodaeth. Mor belled ry'n ni'n gwybod bod,-

- Betsan Pearce ar ei blwyddyn gyntaf yn astudio Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe.
- Bethan Williams ym Mhrifysgol Abertawe yn astudio Sbaeneg a Ffrangeg.
- Lowri Jones yn astudio Sbaeneg ym Mhrifysgol Caerdydd.
- Osian Jones, ei brawd, yn astudio Mathemateg ym Mhrifysgol Caerdydd.
- Aled Holt yn astudio Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.
- Aled Davies, mab Carys ac Elwyn, yng Ngholeg Meddygaeth Caerdydd.
- Geraint Morgan yn Rhydychen yn astudio Ffiseg.

Llongyfarchiadau gwresog iawn i Ceren Roberts ar dathlu ei phenblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar iawn a dymuniadau gorau iti ar drothwy bywyd fel oedolyn. Dymuniadau gorau hefyd i'th chwaer Glesni sydd ar ei hail flwyddyn ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae Sioned Jones, chwaer hynaf Lowri ac Osian bellach yn gweithio gydag S4C tra mae Llinos, y chwaer ganol newydd ddechrau swydd gyda Gwasanaeth Cyflogi'r Tribiwnlys. Gobeithio na chei di Llinos yr un trafferth yn rhy aml i gyrraedd y gwaith ag y cest ti i ddal yr awyren ym maesglanio Prague! Pob dymuniad da i chithau'ch dwy.

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

GINIO NADOLIG

yn Ty Nant Ddu

Nos Wener, 6ed Rhagfyr

Pris: £23.50 y pen

Manylion: 01443 218077

Capel Salem, Tonteg

Cydymdeimlwn â Miss Jean Jones ar golli ei modryb, Mrs. Clarice Boyce, ddiwedd mis Hydref. Dyma'r olaf o deulu mam Miss Jones, teulu a gafodd eu geni a'u magu yn Nhrehopeyn a bu Mrs. Clarice Boyce yn ffyddlon i'r Eglwys yno trwy gydol ei hoes. Efallai bod rhai o ddarllenwyr y Tafod yn cofio Mrs. Boyce yn gweithio gyda'i chwaer yn y Popty ym Mhentre'r Eglwys sawl blwyddyn yn ol pan oedd y fusnes dan ofal Jeff Caines o Dreorci – cefnder i Miss Jones. Cymeriad hwyliog iawn oedd gan Mrs. Boyce a danfonwn ein cydymdeimlad hefyd at ei gŵr, Alfred, eu dau blentyn Christine a David a'u teuluoedd.

Er clod i'r ffyddloniaid mae'r Oedfa Gymraeg sydd wedi symud i 9.30 fore Sul heb anhawster a dymuna'r Gweinidog, y Parch Peter Cutts, ymestyn ei ddiolch i bawb. Mae'n newyddion da i gofnodi bod rhagor o addolwyr yn mynychu'r gwasanaeth hwn erbyn hyn ac, wrth gwrs, mae croeso cynnes iawn i unrhywun arall sydd yn barod i godi ynghynt.

Yn yr Oedfa Deuluol ar Hydref y 13eg, pryd y cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch, tynnodd y Gweinidog sylw at y Fasnach Annheg yn y Trydydd Byd - fel ag y mae'n para i fod yn y rhan fwyaf o leoedd- ond bod prosiectau derbyniol dros ben yn cael eu cynllunio i hybu Masnach Deg. Newyddion calonogol yn wir yw croesawu'r siop,-

Fair Dos - Siopa Teg,

10 Heol Llandaf,

Treganna,

Caerdydd. CF11 9NJ.

(Ffon – 02920 2220660).

Yn sgîl yr uchod dyma rywbeth bach i gnoi cil arno efallai,-

*Duw'r cyfandiroedd ac Arglwydd popeth byw,
Ar gyfoeth y byd rhoddaist ddyn wrth y llyw:
Rho inni arweiniad i roi trachwantau tu cefen....
Mae'r cynnyrch yn eang – ond eang yw'r angen.*

*Duw y Trugaredd yn wylaidd gweddiwn
Am dy bobl sy'n dioddef yn filiwn ar filiwn:
Fe greaist fydsawd sy'n orlawn o drysor
Ond newyn fydd goncro tra bod rhai'n hawlio rhagor.*

Ar nos Wener, yr 11eg, o Hydref mwy'n hawyd y Swper Diolchgarwch yng nghwmni ein gilydd. Yn ystod y noson o hwyl bu cofio hefyd am y rhai nad yw'n gallu dathlu'r Cynhaeaf. Fel rhan o'r wledd cofiwyd am yr ymdrech i Ddathlu Rhyddid a gosodwyd lle gwag er mwyn carcharor fel "gwestai arbennig" gan gynnu cannyll er cof amdano a defnyddio gweddi'r Carcharor a ddarparwyd gan "Cristnogion yn erbyn Poenydio".

Y Gymdeithas Gymraeg

Nos Wener ola mis Medi codwyd dros £200 mewn Noson Goffi er budd Nyrsus McMillan. Daeth nifer arbennig o dda ynghyd ac hyfryd gweld Festri'r Eglwys yn llawn. Diolchodd Mrs. Christine Jones am gefnogaeth pawb ar y nos Wener ganlynol.

Methodd rhai aelodau ffyddlon ddod ar y wibdaith flynyddol y tro hwn pan aethon o dan ofal manwl Mrs. Audrey Lewis i Graig y Nos, dros y Mynydd Du a heibio i Gastell Carreg Cennen o bob cyfeiriad, y Ganolfan Grefftau yn Trapp, trwy Fethlehem i ffair Llandeilo cyn swpera'n y White Hart yno. Sylwon fod y gyrrwr yn gafael yn dynn wrth yrru dros yr heol gul, fynyddig (a'r golygfeydd godidog) dros y Mynydd Du! Diolch hefyd i Allan Lewis am ei gymorth i baratoi diwrnod o addysg a hwyl inni a diolch i Bill a Nesta am ein tywys ar ran ola'r siwrne trwy Rydaman a Phontardulais gyda straeon difyr a diddorol. Dewis da oedd dechrau yng Nghraig y Nos gan fod ein tywysydd swyddogol yno wedi'n bwydo'n hael gyda hanes lliwgar o gyfnod Madame Patti hyd y presennol. Mae'n siwr hefyd fod

Craig y Nos wedi teimlo'n ddiolchgar bod dau aelod o'r Gymdeithas wedi bod mor barod i droi eu dwylo ar olchi'r llestri! (Mae'r Gymdeithas yn ystyried cynnig y gwasanaeth hwn allan i bobl mewn argyfwng tebyg gan fod gennym ddau aelod a fwrodd eu prentisiaeth yng Nghraig y Nos!).

Bydd Mrs. Beti Thomas yn treulio cyfnod y Nadolig yn ymyl Chicago gyda David ei mab ac Elizabeth ei merch yng nghyfraith – heb anghofio William yr ŵyr. Efallai, a gobeithio, y bydd un ychwanegol i ofalu amdano cyn iddi ddychwelyd i Gymru. Gobeithio hefyd y cewch siwrnai hwylus Beti ac amser wrth eich bodd.

Tomos Morse fu'n cadw oed gyda ni ddechrau Hydref ac yn sôn am y camau a'i brofiad diddorol wrth baratoi rhaglen Jac a Wil i Radio Cymru. Edrychwn ymlaen at nos Wener, Tachwedd 8fed pan fydd Dr. Elin Jones yn trafod tafodieithoedd traddodiadol gyda'r aelodau.

Siop y Pentre Village Trading Post

Pentre'r Eglwys
Popeth ar eich cyfer

Bwyd - diod
off-licence
popty-roliau

01443 218440

Os am

DIWNIWR
PIANO



Cysyllter â
Hefin Tomos

16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD

Ffôn: 029 20484816

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Cynhaliwyd twrnameint rygbi ar feysydd chwarae Ysgol Coed yr Esgob Medi 27ain gydag Ysgol Tonysguboriau, Ysgol Coed yr Esgob, Ysgol Pontyclun ac Ysgol Gymraeg Llantrisant yn cymryd rhan. Chwaraeodd tîm Llantrisant yn arbennig o dda yn erbyn y timoedd eraill. Yn anffodus, enillon ni ddim ond roedd y sgôr yn agos iawn. Hefyd, ddydd Iau, Hydref 17eg chwaraeodd yr ysgol yn erbyn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail. Gêm arbennig o dda oedd hi gyda chwaraewyr Llantrisant a Thonyrefail yn chwarae'n dda iawn. Diolch yn fawr iawn i Mr Muir, tad Matthew o ddosbarth 9, am hyfforddi'r tîm ac i'r holl rieni am eu cefnogaeth

Mae plant Blwyddyn 4 hefyd wedi cael cyfle i wella'u sgiliau rygbi y tymor hwn gyda Gary Lucas, swyddog datblygu URC a dau o chwaraewyr tîm Pontypridd. Felly, erbyn blwyddyn nesaf, bydd tîm o chwaraewyr cryf gyda Mr Muir.

Diolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am rodd hael o fil o bunnau tuag at brynu meddalwedd ac adnoddau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i'r ysgol gyfan. Gwariwyd llawer o arian ar galedwaith y llynedd a nawr, diolch i holl rieni yr ysgol sydd wedi bod yn brysur iawn yn codi arian, rydym wedi archebu llawer o adnoddau newydd. Bydd y plant yn brysur iawn yn gwella ar eu sgiliau technoleg ar ôl y Nadolig pan gyrhaeddff yr adnoddau newydd.

Croeso cynnes i'n hathrawes telyn newydd Mrs Lowri Phillips ac athrawes offerynnau llinynnol Miss Siân Jenkins sydd wedi bod gyda ni am hanner tymor bellach. Diolch yn fawr iawn hefyd i Mrs Mirain O'Brien a Mrs Lynne Turner am eu gwasanaeth i'r ysgol dros y blynnyddoedd. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu hysgolion newydd eleni.

YSGOL GYFUN LLANHARI

Banc yr Ysgol

Er mwyn ateb gofynion y disgyblion hynny oedd yn cadw'u harian yn ddiogel dan glustog er mwyn cynilo, agorwyd cangen newydd o Fanc NatWest yn Ysgol Gyfun Llanhari ar 4ydd Hydref 2002. Daeth hyn yn sgîl ymweliad gan Becky Hughes sy'n rheolwraig yng nghangen Natwest yn Nhonysguboriau a ddaeth i siarad â disgyblion Blwyddyn 10 ynglyn â sut i fuddsoddi a threfnu arian.

Yn dilyn ymweliad Becky awgrymwyd gan y disgyblion y byddai agor banc yn yr ysgol yn gymorth mawr iddynt, boed yn ddisgybl newydd Blwyddyn 7 neu'n aelod aeddfed o'r Chweched Dosbarth. Dewiswyd Stephen Nutt a Marianne Edwards i lywio'r fenter a threfnwyd cyfweiliad i'r ddau â Becky er mwyn trafod ymarferoldeb agor banc yn yr ysgol.

Er mwyn hybu diddordeb a chodi ymwybyddiaeth trefnwyd cystadleuaeth creu poster fyddai'n cael ei ddefnyddio i lawnsio'r banc yn yr ysgol. Christopher Morris o Flwyddyn 9 enillodd y gystadleuaeth ac fe dderbyniodd chwaraewr CD yn wobwr.

Dechreuodd y banc yn yr ysgol ar

Croeso 'nôl i Rebecca Llewellyn, cyn-ddisgybl Ysgol Llantrisant, sydd wedi dod atom y tymor hwn ar brofiad gwaith yn y dosbarth Meithrin. Mae Mrs Riggs, Mrs Hurst a'r plant wrth eu boddau gyda phâr arall o ddwylo i helpu!

Croeso cynnes hefyd i ddwy fyfyrwraig o Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Mae Amanda Jones yn gweithio gyda phlant Blwyddyn 1 gyda Mrs Delyth Williams a Francis Walker sydd yn dysgu plant bach y dosbarth Derbyn gyda Miss Catrin Richards. Pob lwc i'r tair ohonynt a gobeithiwn y byddant yn mwynhau eu hamser gyda ni.

Mae côr yr ysgol wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yng ngofal Miss Catrin Richards a Mrs Lisa Veck. Cymeron nhw ran mewn gwasanaeth arbennig yn Eglwys Llantrisant ar Ddydd Sul, Medi'r 29ain ar ôl derbyn gwahoddiad oddi wrth Gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Islwyn Wilkins. Diolch yn fawr iawn i Mr Wilkins am y gwahoddiad ar ddiwrnod mor arbennig.



ddydd Gwener 4 o Hydref gyda dros 20 o ddisgyblion yn agor cyfrifon newydd. Cynhelir y banc yn rheolaidd ar fore Gwener yn wythnosol ac mae ei boblogrwydd wedi tyfu o nerth i nerth. Bydd torf yn aros am sylw bob wythnos.

Dywedodd Miss Amanda Williams, Cyd-lynydd ABCh Ysgol Gyfun Llanhari, fod y gweithgaredd yn fuddiol iawn fel cyfrwng i ddysgu disgyblion i fod yn gyfrifol am drin arian yn iawn.

Llwyddiannau Ymarfer Corff

Treialon Hoci Taf Elái

Tanya Harrison, Cerys Rudall, Eleanor Jordan, Carys John, Holi Smith, Amanda Williams a Lowri Dawe. Mae'r uchod wedi bod yn nhreialon y Sir a'r canlynol yn llwyddianus - Lowri Dawe a Cerys Rudall.

Mae treialon nofio Ysgolion Morgannwg Ganol cyn bo hir. Pob lwc i bob un fydd yn cystadlu.

Pêl-rwyd

Roedd y merched canlynol yn llwyddiannus yn nhreialon pêl-rwyd Taf Elái. Byddant yn mynd ymlaen nawr i dreialon y Sir. Sef - Ceri Mitchell, Hannah Saar, Rachel Phillips, Frances Samuel a Hollie Smith i gyd o flwyddyn 9.

Traws Gwlad


Merched a fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli De Cymru yn y campwriaethau traws gwlad yw: Rhian Phillips Bl 9, Cerys Rudall Bl 9, Sarah Bush Bl 12 a Rhian Thomas Bl 8.

Llwyddiant Rygbi

Mae'r tri canlynol yn cynrychioli Talaith Canolbarth Cymru: Lloyd Ryland, Kieron Moore a Jonathan Williams Bl 11.

Pêl-droed

Roedd gem bel droed bl 10 wedi bod yn llwyddiannus oni bai am dactegau Mr Llion Jones. Y bechgyn wedi joio mas draw ac yn edrych ymlaen i'r gêm nesaf.



Roedd dau ymgais cywir ar Groesair mis Hydref, llongyfarchiadau i Derec Stockley, Coed y Cwm, Pontypridd ar ennill y tocyn llyfrau. Mae'r datrysiad ar safle www.tafelai.net.

Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau.

Atebion i: Croesair Col

34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 20 Tachwedd 2002

Ar Draws

- 1 – 10 O! Gweld ffenestr draw acw'n agor a dweud 'au revoir' (6,3,4,4,3)
7. O'n rhedeg ni i lawr cawn ynni (4)
9. O fewn ychydig, dyna'r ateb (4)
10. Gweler 1
11. Mae'r cwrw yng Nghaernarfon yn ffrwythlon yn Lloegr (4)
13. Rwyd mewn popty dychrynllud (4)
14. Cronglwyd—neu rhywle i roi'r ffidil (4)
15. O wy'r estrys daw merch i ferch (5)
- 16 Mae Luc yn wr tenau (5)
20. 'Rargian' meddai ond heb fod yn swllyd, 'mae modd i dalu' (5)
22. Af â 1100 i'r sticil (5)
25. Yn y bocs mae bwgan (2)
26. Daw Nia â 500 i gymryd sbonc (4)
27. Ie. O'u trefn i gysylltu rhywffordd (4)
28. Gall Emyr annog i gymeradwyo (7)
29. Gwisg y meira amdano? Dim cweit (4)
- 30 Yn ein hogof ni mae lle i arswyd0 (4)
- 31 a 24. Dydi torri cwys ddim yn digwydd ar hast—ys dywed y ddihareb (3,2,5,3,6)

I Lawr

1. Yn ei orffen e, strancio i wneud twll yn y wal (7)
2. Mae'r wy'n wyn ac ynddo ceir llysewyn (6)
3. Yn y gogledd 'slawer dydd (3,5)
- 4 Mae'r gwr yma yn cymryd pedol ac yn lledfynegi (7)
5. Mae Glyn swil yn o od a di-drefn ar wythnos geni'r Iesu (6,1,7)
6. Dilledydd y briff ddinas i Nico (7,7)
8. Mynd ag us i Adda i gynhwyso (5)
12. Gall fod yn o hen ond yn asbri (4)
17. Cael arf o'r dirprwy i guddio ar lan y môr (8)
18. Mae Philip ab Ifan yn dal blodyn (4)
19. O'dd trin yn wahanol yn drysu mwy na dau berson (7)
21. Mae ych a wn amdani'n grwgnach (5)
23. Fel Romeo, yn colli dim ar ynys Môn (7)
- 24 Gweler 31 ar draws.

Ysgol Pont Siôn Norton

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mr Alun Williams ar ei benodiad fel pennaeth newydd yr ysgol.

Croeso


Croeso i ddwy athrawes newydd sydd wedi ymuno â staff yr ysgol. Mae Miss Samantha Jones yn dysgu'r dosbarth Meithrin a Miss Lowri Davies yn dysgu dosbarth Blwyddyn 1/2.

Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Emma Wareham sy'n ein gadael dros dro i fynd i fyw i'r Eidal at ei gŵr sydd ar hyn o bryd yn gweithio yno.

Croeso nôl i Mrs Heledd Day ar ôl ei chyfnod mamolaeth.

Cyrsiau Preswyl

Aeth criw o blant blwyddyn 5 a 6 am benwythnos i Langrannog yn ddiweddar ac fe aeth grŵp o blant blwyddyn 6 i Ganolfan Pentre Ifan am dridiau fel rhan o gynllun pontio gydag Ysgol Rhydfelen.



Pentyrch a'i Gymeriadau

**Parhad o'r erthygl gan Don
Llywelyn a ymddangosodd yn
Llafar Gwlad yn ddiweddar**

Rwy'n cofio Twm yn sôn am ddyn o'r enw Jona a oedd yn byw yn 'Gwrt y Carna'. Fe fu merch yn byw mewn tŷ cyfagos ac roedd Jona yn caru shia hi er ei bod hi'n dlawd ei hiechyd.


Daw jaioni byth o Jona
Sy'n byw yn Gwrt y Carna
Fe ddaws ei serch ar ferch T Bech
Sy ddim yn iech sblynydda!

Cofiwch, dydw i ddim yn sôn am feirdd o safon yma. Rwy'n deall hynny. Dim ond dynion (rhai ohonynt yn hollol anllythrennog) a oedd yn mwynhau dodi geiriau syml at ei gilydd. Un arall oedd Twm Rees o Shini Colas (hynny yw, St Nicholas). Roedd y Twm hyn yn cyrchu tafarn Y Rock yn y pentre 'ma o dro i dro. Yn gweithio ar hyd y ffermydd oedd e, o un fferm i'r nall . . . a chel cwpl o syllta a off a fe i'r dafarn nes bo hi'n stop tap. Bysa fa'n cysgu mewn sguboria 'ma a co. Ond rhyw nyswith yr oedd wedi cel gormod yn y dafarn ac ar ei ffordd i ffindo rhywle i gysgu fe gwmpws a dorws ei goes. Ac fel hyn y canodd a':

Os olad rhwyn pwy'n oedd y bardd
Atebad rhwyn o'r dyrfa
Cael llanc o'r fro a ddaeth am dro
A digon o gyneddfa
Yn Shini Colas gewch chi'r hanas
Mewn lle ganad, mewn lle cynnas.
Mae e a'i arian yn yr *Union*
Yn lle cyfiawn i ddod yn gyfan
Wedi cwmpo'n gros
Ar hanner nos
A thorri cos ei hunan!

Cymeriad arall oedd Siôn y Mynydd. Un diwrnod roedd yn ymddangos o flaen yr ynadon ym Mhontypridd ar gyhuddiad o fod yn feddw ac yn gorwedd yn y gwter. Gofynnodd cadeirydd y faine os oes rhywbeth ganddo i ddweud yn ei amddiffyniad.

'Wel,' medda Sion . . . 'roedd y bai ar y ddau ddyn a oedd yn dal fi lawr!'



Priodas merch yr offeiriad 1890

'Dau ddyn?' gofynnodd y cadeirydd, 'Dau ddyn? . . . yn ôl y plismon roet ti ar ben dy hunan! . . . beth sy . . . ' 'Wel, roedd dau ddyn yn ym dal fi lawr ta beth', dwedodd hen Sion.

'Wel, pwy oedd y ddau ddyn yma ta?'

'Mitchell a Butler syr,' medda Sion, 'Mitchell a Butler.'

Dros y canrifoedd mae trigolion Pen-tyrch wedi ennill enw am fod yn ofergoelus. Roedd ganddynt gred ddofn yn y byd gornaturiol. Rwy'n cofio fy hunan storïau ynglyn â'r Ceffyl Dŵr, y Toeli, jac y Lantarn, a'r ysbrydion i gyd a oedd yn cyrchu corneli tywyll y plwyf. A beth am 'Y Ladi Wen'. Mae pobl yn fyw heddiw ym Mhen-tyrch sy'n barod i ddweud eu bod nhw wedi gweld y ddrychiolaeth 'na. Dywedir yr unig ffordd o osgoi y weledigaeth ddychrynlyd oedd i adrodd y pennill . . . pennill a safodd ar wefusau plant gwirioneddol ddiniwed fy nghenedlaeth i:

Ladi Wen ar ben y pren
Yn naddu cos ymbrelo
Me'n un o'r gloch
Me'n ddou o'r gloch
Me'n brid i'r moch gel cino.

Roedd ein hewyrth yn rhybuddio pawb wastod gyda:

'John Jones, cau dy ben
Paid a holi'r Ladi Wen
Neu daw barn ar dy ben.'

Atgofion niwlog sydd gennyf o'r addysg a gefais yn ysgol bentre Pentyrch. Teml i addoli arwyr Lloegr oedd hi yr adeg honno beth bynnag, lle dysgais am Robin Hood a Hereward the Wake, Drake a Nelson, Wellington a William Pitt. Fawr o ddim am hanes Cymru. Felly hoffwn gael fy ystyried yn un o fethiannau mwyaf llwyddiannus yr ysgol honno!

Ond mae'n rhaid i mi gyfaddef fod gennyf atgofion melys hefyd. Mae'n dda gennyf weld y ffordd y mae'r ysgolion lleol heddiw yn ennyn diddordeb y plant ym mywyd ac yn hanes eu hardal. Trueni fod cymaint a oedd yn ddiddorol wedi diflannu yn ystod y gorffennol agos. Er fy mod yn perthyn i'r genhedlaeth honno a welodd ddirywiad yr iaith, pleser mawr ydyw cofio'r dylanwadau cynnar. Ni all dim fod yn fwy torcalonnus na gweld bro wedi colli ei thraddodiadau a phob cof am y pethau a fu. Llongyfarchiadau i aelodau Clwb y Dwrllyn Pen-tyrch am eu hymdrechion i adfywio'r hen ddefod . . . y Fari Lwyd. Atgof sy'n dod yn ôl yn gryf yw fy ngolwg cyntaf o'r ddau frawd Twm a Shoni Caerwal a'u 'cyfeillion diniwad' yn cyrraedd gyda'r Fari. Llais tenor Twm yn canu'r hen don - mae'n dal i rewi fy esgym hyd heddiw:

'Mae gen i hen Fari
- y lana yn Gymru
Y lana yn Gymru nos Heno . . .'



Ysgol Sul Horeb, Pen-tyrch, 1936

A llais y baswr Dai Jones yn ateb:

'Does gen ti ddim Mari; hen fwlsyn sy gennyt ti . . . a stwffa'r hen recsyn . . . 'a.y.b.

O, am y dyddiau a fu!

Un stori arall. Ym mis Rhagfyr 1951 roedd mast teledu y Wenfo yn cael ei adeiladu ar gyfer y trosglwyddiad cyntaf o deledu yng Nghymru a Gorllewin Lloegr oedd i fod yn dechrau yn y mis Ionawr canlynol. Roedd y mast yn hawdd i'w weld oddi wrth Pentyrch ac yr on ni'n gallu gweld y polyn yn tyfu dydd wrth ddydd. Roedd Twm Crydd ag Edmund Shedi yn eistedd ar y ffwrwm oedd yn gyferbyn â'r Lewis Arms ac roeddynt yn edrych i lawr tuag at y Wenfo. Roeddynt wedi sylwi fod polyn arall, llai na hanner uchder yr un tal, wrth ei ochor. Dyma Twm yn gofyn i Edmund: 'Beth yw pwrpas y polyn byr 'na ta Edmwnt?'

'I raglenni plant weden i,' medda fa!

Ffurfiwyd Cymdeithas Hanes Lleol Pen-tyrch yn 1993 ac mae'n mynd o nerth i nerth. Ar hyn o bryd mae dros gant o aelodau sydd â diddordeb iachus yn y gorffennol - yn ogystal ag edrych tuag at y dyfodol gyda gobaith a hyder. Yn bersonol, er fy mod yn hiraethu am gyfnod y tai toydd gwellt a fu'n nodweddu'r fro yn ystod fy mhlentindod, a'r iaith nefol a symudodd tafodau'r brodorion, yr ydwy'n gweld arwyddion fod dyddiau da i ddod. Rwyf yn hyderus fod y dylifiant o waed newydd, tafodieithoedd ac acenion newydd

sydd wedi cyrraedd y gymuned yn creu gobaith newydd i bob un ohonom. Pwrpas ein cymdeithas yw sicrhau y bydd rhai o agweddau'n gorffennol gyda ni am byth. Er gwaetha'r newidiadau, heb amheuaeth mae adlais yr hen amserau yn aros; ar bob awel mae hen ysbrydion yn sibwrdd, ac ar bob pelydr haul cewch gip ar anturiaethau'n cynbentrefwyr.

Don Llewelyn
(Cadeirydd Cymdeithas
Hanes Lleol Pen-tyrch)

PARHAU I GOFNODI CYLCH Y GARTH

Mae Cymdeithas Hanes Lleol Pentyrch a'r Cylch wedi cyhoeddi Cyfrol 16 o'r gyfres 'The Garth Domain'. Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys amrywiaeth o erthyglau yn cynnwys hanes Crochendy Nantgarw ac erthygl am y Wenhwyseg a siaradwyd ym Mhentyrch a'r fro.

Mae'r rhifyn ar gael am £2 drwy ffonio 029 20890535. Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas yng nghapel Horeb am 7.30pm ar Nos Fercher, Tachwedd 27ain. Bydd Mr Havard Gregory yn sôn am atgofion ei blentindod yng Ngwaelod y Garth. Cynhelir y cyfarfodydd yn Saesneg.

Cronfa Goffa Elfed Lewis

Annwyl gyfaill,

Mae'n fwriad gennym i sefydlu gwobr barhaol er cof am y diweddar Elfed Lewis yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Gan fod yr Eisteddfod yn Sir Drefaldwyn y flwyddyn nesaf, byddai'n addas iawn i gyflwyno'r wobwr am y tro cyntaf yno.

Mae amryw o unigolion eisoes wedi cyfrannu at y gronfa hon ond mae angen mwy. Roedd gan Elfed gyfeillion a chydabod ym mhob rhan o'r wlad a theimlwn y byddai llawer yn hoffi cael y cyfle i gyfrannu cyn i'r gronfa gael ei chau.

Nid oes angen sôn am gyfraniad aruthrol Elfed Lewis i fywyd Cymru na'r golled a adawodd ar ei ôl. Os oes rhywun yn haeddu ei goffáu, a'i goffáu yn deilwng, Elfed yw hwnnw.

Os hoffech gyfrannu, dyma'r cyfeiriad:

Cronfa Goffa Elfed Lewis,
Pendyffryn, Ffordd Bachie,
Llanfyllin, Powys. SY22 5LA

Diolch yn fawr ar ran y pwyllgor,
Tegwyn Jones, Arfon Gwilym.

Taith y Saith Saint

Dyma gyfle i glywed rhai o feirdd a pherfformwyr mwyaf poblogaidd Cymru - Twm Morys, Iwan Llwyd, Myrddin ap Dafydd, Mei Mac, Ifor ap Glyn, Geraint Lovgreen, a'r chwaraeydd sacsoffon adnabyddus, Edwin Humphreys - mewn sioe llawn asbri o gerddi a chaneuon newydd. Bydd yr adrenalin yn llifo wrth i'r "seintiau" ein tywys ar daith ddifyr yn dilyn llwybrau'r Saint o Iwerddon i Landaf, o Glynog i Lanbadarn, o Landeilo Cymru i Landeilo Llydaw. Y nod yw dod o hyd i Nawddsant newydd i'r Gymru newydd ar orchymyn yr hen Ddewi ar ei wely angau. Ar ôl i Ddewi Sant ein gadael, mae'n amser i ddewis sant...

Bydd pererindod y seintiau yng Nghlwb Ifor Bach, Caerdydd ar nos Sadwrn 7 Rhagfyr.

Tocynnau: 029 20472266.

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

DARGANFOD PLANHIGION CANABIS

Mae'r heddlu wedi dod o hyd i blanhigion canabis gwerth £2,000 ar ôl i aelod o'r cyhoedd ffonio Tacleo'r Tacle.

Roedd y planhigion mewn tŷ gwydr yn Ffynnon Taf a chafodd dau ddyn eu harestio ar amheuaeth o dyfu cyffuriau rheoledig.

Y Rhingyll Chris Thomas, y Cwnstabl Gareth Jenkins a'r Cwnstabl Terry Williams arestiodd y ddau ddyn. "Rydym yn annog y cyhoedd i helpu ein hymgyrch yn erbyn cyffuriau," meddai'r Rhingyll Chris Thomas. "Newydd ddechrau y mae'r ymgyrch ac mae'r canlyniad hwn yn bwysig."

Gellwch ffonio Tacleo'r Tacle ar **0800 555111**.

MARW GROSVENOR ELLIOTT

Yn ddiweddar, bu farw un o gymeriadau pentre Ffynnon Taf. Roedd Grosvenor Elliott, ei frawd, Gordon, a'i dad, Cadwgan yn berchen ar siop cigydd yn Heol Caerdydd am flynyddoedd.

Roedd angladd Grosvenor, gŵr Myra a thad Jayne, yn Eglwys Iago Sant, Ffynnon Taf, ac Amlosgfa Glyntaf, Pontypridd, ar Fedi 24. Cydymdeimlwn â'r teulu.

TORRI GORCHYMYN GWAHARDD

Yn Llys Ynadon Pontypridd cafodd Peter Lintern, 26 oed o Ffynnon Taf, ei ryddhau'n amodol am flwyddyn.

Doedd e ddim wedi dilyn telerau gorchymyn gwahardd oedd yn ei atal rhag mynd i gemau pêl-droed rhyngwladol am nad oedd wedi ildio ei basbort.

DWYLO DROS Y MOR

Mae plant Ysgol Gynradd Ffynnon Taf wedi danfon dillad, teganau a gêmiau at blant amddifad Rwsia.

Roedd aelod o Gôr Meibion Pontypridd, Ray Parry, wedi apelio at ysgolion i helpu plant y stryd yn Rwsia a llwyddodd plant ysgol y pentre i lenwi 30 bag bin ag eitemau nad oedd eu hangen.

"Roedd yr ymateb yn anhygoel," meddai'r brifathrawes, Wendy Reynolds. "Mae'n dangos fod y plant yn deall anghenion plant eraill yn y byd."

DEG FFLAT YN LLE GORSAF HEDDLU?

Mae hysbysiadau wedi ymddangos ar bolion lampau Heol Caerdydd yn Ffynnon Taf. Mr T Vassal, P Developments Cyf., 3 Coed Ceiron, Rhiwbina, Caerdydd, sy wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio i godi 10 fflat ar y safle. Rhif y cais yw 02/1453/13 a gellwch edrych ar y cynllun yn Swyddfa Adran Gynllunio Cyngor Rhondda Cynon Taf, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd. Y rhif ffôn yw 01443 400322.

GWAHARDD AM FLWYDDYN

Yn Llys Ynadon Pontypridd cafodd dyn o Nantgarw ei wahardd rhag gyrru am chwe mis a dirwy o £50. Roedd Daniel Preston, 30 oed o Rhyd yr Helyg, wedi gyrru car heb yswiriant na thystysgrif MoT a nodwyd chwe phwynt cosbi ar ei drwydded.

DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM,

Gwaelod-y-Garth, 10.30am. Tachwedd 3: Y Gweinidog (Cymun); Tachwedd 10: Y Gweinidog; Tachwedd 17: Y Parchedig Eirian Wyn; Tachwedd 24: Y Gweinidog.

CYLCH MEITHRIN Gwaelod-y-Garth, 9.15-12, Festri Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth. Sesiynau prynhawn ddydd Mawrth a Mercher. Mwy o fanylion: 029 20 813980.

CYLCH TI A FI Ffynnon Taf: brynhawn Mercher yn ystod y tymor, 1.15-2.45pm, Neuadd Pentre Ffynnon Taf. Mwy o fanylion: Jo Jones, 029 20 810600.

CYMDEITHAS ARDDWROL

Ffynnon Taf a'r Cylch: ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

YSGOL GYNRADD GWAELOD-Y-GARTH:

Tachwedd 8: Tony Lewis a Julia Young, Canolfan Hanes a Chelfyddydau Trebiwt, yn cyflwyno tystysgrifau a gwobrwyon i enillwyr cystadleuaeth Food for Thought; Tachwedd 15: Menna Elfyn yn cynnal Gweithdy Ysgrifennu Creadigol; Tachwedd 30: Ffair Nadolig Cymdeithas y Rhieni ac Athrawon.

Y Cynulliad ym Mhontypridd

Bydd cyfarfod o Bwyllgor Rhanbarth y De Ddwyrain Cymru'r Cynulliad Cenedlaethol o 9.30am i 12.30pm Dydd Gwener 22 Tachwedd 2002 yng Nghlwb Rygbi Pontypridd, Heol Sardis, Pontypridd. Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth gynyddol ar gyfer gweithgareddau diwylliannol yn yr ardal.

Bydd cyfres o gyflwyniadau gan sefydliadau diwylliannol Cymru gan gynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, Celfyddydau Anabledd Cymru a Chastell Cyfarthfa.

Bydd cyfle yn y cyfarfod i'r cyhoedd holi Aelodau'r Cynulliad a'r cyflwynwyr. Mae croeso i chi ddod draw i wrando ac i gwrdd ag Aelodau'r Cynulliad yn ystod yr egwyl.

Mae croeso ichi dynnu sylw pobl eraill a allai fod a diddordeb at y cyfarfod. Os hoffech fod yn bresennol, ffoniwch Linell Neilltuo Lle y Cynulliad ar 029 2089 8477. Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig, rhwch wybod i aelod o dîm Neilltuo Lle y Cynulliad.

CD Newydd o Ganenuon Gwerin

Lansiwyd CD newydd gan y y grŵp gwerin 'Ffynnon' ym mis Hydref. Roedd y triawd dynamig, Lynne Denman (llais), Stacey Blythe (allweddell, telyn) a David Reid (gitâr bâs), wedi dal sylw'r gynulleidfa ifanc iawn (y rhan fwyaf 18 – rhyw 25) tra'n cyflwyno cymysgedd fyrlymus o ganeuon yn y Gymraeg, Saesneg, Ffrangeg a hyd yn oed Arabeg yn y lansiad yng Nghaerdydd.

Roedd y traciau Cymraeg yn cynnwys cerdd Gymraeg o'r chweched ganrif a ganwyd mewn dull ffynsiog a modern, fersiwn cynhyrfus o'r gerdd glasurol, 'Aros Mae', gan Ceiriog, a chân oriog-deimladol gan Meic Stevens na fuasai wedi bod ma's o diwn yn yr un ffau nos yn y byd. Sori, Meic, ond rhaid i mi ddweud mod i yn meddwl yn bendant bod dy ganeuon gwyh yn swinio yn well o lawer pan fydd Lynne yn eu canu!

Y tair cân yn Saesneg oedd cân yn nhafodiaith Northumbria yn ogystal â dau faledi clasurol o'r gororau Lloegr-Alban.

Y ddwy gân yn Ffrangeg oedd caneuon dawnsio o Lydaw – yn lwcus iawn fentrodd neb eu ceisio nhw ar y llawr achos roedd y lle dan ei sang! Yn olaf cafwyd cân fywiog iawn – a gafodd ei chyfeilio mewn dull ysblennydd ar yr allweddell a'r gitâr – o Balesteina am fam yn ffarwelio ag ei phlentyn wrth iddo gychwyn at yr ysgol.

'Celtic Music from Wales'

gan Ffynnon.

Yr albwm gyntaf Cymreig i gael ei gyhoeddi gan gwmni Green Linnet Records, label canu gwerin a cherddoriaeth fyd eang o'r UDA.

Cymdeithasau a Mudiadau Cymraeg Lleol

Rhowch wybodaeth am eich
gweithgareddau yn Tafod Elái
am ddim.

Ffôn: 029 20890040
pentyrch@tafelai.net

LANSIO CYSTADLEUAETH CYFANSODDI DRAMA FER

Mae Cystadleuaeth cyfansoddi drama fer 2003 Cymdeithas Ddrama Cymru wedi ei lansio. Gall dramodwyr anfon gweithiau atom nad ydynt yn llai na 20 munud o hyd nac yn hirach na 50 munud o hyd. Am ffurflenni cais cysylltwch â Teresa yng Nghymdeithas Ddrama Cymru, Caerdydd 029 2045 2200.

Ni cheir categorïau gwahanol eleniGwobrwyir y 1af, 2il, 3ydd â gwobr ariannolYstyrir cyhoeddi y dramaau a ddaw i'r brig

....Ystyrir llwyfannu y ddrama Gymraeg orau wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cynhelir y gystadleuaeth hon er mwyn hyrwyddo ysgrifennu newydd ar gyfer y llwyfan yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dyddiad cau y gystadleuaeth yw 31ain Ionawr 2003.

Os hoffech dderbyn ffurflen gais ar gyfer y gystadleuaeth hon sy'n cynnig cyfle i weld eich gwaith wedi ei gyhoeddi, neu am fanylion am Gymdeithas Ddrama Cymru, cysylltwch a Teresa: 029 20452200 neu ffacs: 029 2045 2277 e-bost: aled.daw@virgin.net



Eisiau canu'n
Gymraeg?
Yn newydd i'r
ardal...?
... neu yma ers
blynyddoedd?

Ymunwch â ni! Cŵr Godre'r Garth

Lot o hwyl Darnau Amrywiol
Cŵr SATB Mawr
Teithiau Tramor Cyngherddau lleol
Aelodau o bob oed
Digon o gymdeithasu
Dim gwrandawriadau

Dewch i
Neuadd y Pentref, Efail Isaf
Pob nos Sul am 7:30pm
(heblaw am wyliau ysgol)
Croeso i bawb

Manylion pellach:
029 20890040
www.corgodrerthgarth.com

ARHOLIADAU GORSEDD Y BEIRDD

Annwyl ddarllenwyr

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Gasnewydd yn 2004, beth am fynd ati dros fisoedd y gaeaf i baratoi ar gyfer sefyll arholiadau'r Orsedd, a thrwy hynny ddod yn aelod o'r Orsedd a chael cymryd rhan yn ei seremonïau a'i gorymdeithiau lliwgar?

Cynhelir yr arholiadau ar y Sadwrn olaf yn Ebrill a gallwch ddewis o blith nifer o feysydd i arbenigo ynddynt: Barddoniaeth, Cerddoriaeth, Iaith, a Rhyddiaith, ynghyd â meysydd arbennig i Delynorion a Datgeiniad Cerdd Dant. Rhaid pasio dau arholiad yn eich maes dewisedig cyn cael eich urddo i'r Wisg Werdd, ond gallwch sefyll y ddau bapur yr un diwrnod, os dewiswch. Yna, ymhen blwyddyn wedyn, cewch sefyll yr arholiad terfynol i'ch urddo i'r Wisg Las.

Ceir yr holl fanylion am yr arholiadau mewn llyfryn arbennig - Maes Astudiaeth yr Arholiadau 2002-2003-2004 (£1 + cludiad post). Os hoffech dderbyn copi o'r llyfryn hwn, anfonwch ataf cyn gynted a phosib i'r cyfeiriad a ganlyn: Llys Cerdd, 80 Cae Gwyn, Caernarfon, Gwynedd, LLSS 1LL (01286 676651 neu e-bost gwyn.lewis@btinternet.com)

Beth am roi cynnig arni, felly, er mwyn i chi gael bod yn rhan o seremonïau Gorsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol?

Yr eiddoch yn gywir

Dr W Gwyn Lewis

Trefnydd Arholiadau

Gorsedd y Beirdd

TELERAU HYSBYSEBU

Tafod Elái

Tudalen Cyfan 18 x 27cm £120

Hanner Tudalen 18 x 14cm £60

Chwarter Tudalen 9 x 14cm £30

Chwarter Colofn 6 x 6cm £15

Hysbysebion i gyraedd erbyn yr
20fed o'r mis fel arfer.

Gwybodaeth Pellach:
David Knight 029 20891353

E-bost: pentyrch@tafelai.net

Cornel y Plant

Faint o flodau
welsoch chi dros
yr haf. Dyma
gyfle i chi gofio'r
golygfeydd
prydferth.


Chwiliwch am y blodau!

B	L	O	D	Y	N	M	E	N	Y	N
G	R	L	I	L	I	A	D	L	C	H
W	T	I	S	L	I	D	O	F	F	A
Y	S	D	A	N	T	Y	L	L	E	W
D	D	W	R	F	F	L	R	H	O	S
F	L	F	F	R	A	U	B	O	I	E
I	I	O	W	N	U	P	A	B	I	L
D	P	T	M	F	I	O	L	E	D	M
A	S	D	D	Y	D	Y	D	A	G	Y
L	L	L	L	L	L	L	L	L	L	L

Rhosyn
Briallu
Dant y Llew
Saffrwm

Blodyn Menyn
Tiwlip
Gwyddfid
Daffodil

Lili
Fioled
Pabi
Llygad y dydd



1. Pa 'bl' sy'n dy gadw'n dwym yn y gwely?
2. Pa 'bl' yw'r anifail oedd yn gâs i'r tri mochyn bach?
3. Pa 'bl' fyddwch chi'n gwneud i'ch bwyd?
4. Pa 'bl' yw aniben yn y gogledd?
5. Pa 'bl' sy'n tyfu ar frigau'r coed?
6. Pa 'bl' sy'n enw bachgen?



Dysgwyr Cymraeg yr ardal yn derbyn eu tystysgrifau mewn seremoni yng Nghlwb y Bont ym mis Hydref

www.s4c.co.uk/treflan

Rhagrithiwr neu biler y gymdeithas?

Treflan

YN DECHRAU TACHWEDD 3

ARCHWYBODAETH NEWYDD O RHYS LEWIS, CAN DANYL DWEN, YN Y SIOEPAU O FES TACHWEDD YN LAEN I GYD-FYND Â'R CYFRES.

DRAMA NEWYDD

S4C